

Ymgynghoriad Llunio Dyfodol Cymru Crynodeb o Ymatebion

Rhagfyr 2021



Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey, Sam Grunhut, Nikola Vousden ac Endaf Griffiths

Rhagfyr 2021

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
1 Cyflwyniad.....	4
2 Cymwysterau	7
3 Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddaint	13
4 Cyflogaeth	17
5 Cydraddoldeb Cyflog.....	21
6 Ymddygiadau Ffordd Iach o Fyw	25
7 Ôl Troed Byd-eang Cymru	30
8 Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Sero-Net	34
9 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg	38
10 Dangosyddion Llesiant a Chyfathrebu	43
11 Effeithiau a Chyfleoedd Posibl	45
12 Dull Teithio	48
13 Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol	53
14 Perfformiad Ynni	58
15 Awgrymiadau o Newidiadau i'r Dangosyddion Cenedlaethol	62
16 Y Gymraeg	65
17 Casgliadau	68
Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad	70
Atodiad 2: Ymatebion Sefydliadol	75

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i ymgynghoriad Lluio Dyfodol Cymru. Mae'n cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol.

Ymatebion

Rhwng mis Medi a mis Hydref 2021, derbyniodd yr ymgynghoriad 94 o ymatebion ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn y cynigion. Mae'r 67 o sefydliadau a fynegodd eu barn yn cynrychioli amrywiaeth eang o gyrff gwirfoddol, preifat a chyhoeddus sy'n gweithio yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau eirioli, hyd at gyrff cyhoeddus sy'n gweithio ar draws meysydd iechyd, addysg a llywodraeth leol.

Canfyddiadau Allweddol

Roedd cefnogaeth ysgubol i brif sylwedd pob un o'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion. Yn ddieithriad, roedd barn yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â phob un o'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol. Mae hyn yn awgrymu bod yno gonsensws eang ar bwysigrwydd y materion sy'n cael eu hamlinellu yn y cynigion hyn, a'r blaenoriaethau y maent yn ceisio eu hybu.

Cynigodd yr ymatebwyr hefyd amryw sylwadau'n ymwneud â manylion Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol penodol. Roedd y rhain yn tueddu i gynnig cefnogaeth amodol, lle'r oedd yr ymatebwyr yn cytuno â theimlad a chyfeiriad cyffredinol y cynigion, gan gynnig hefyd awgrymiadau a sylwadau am sut y gallant gael eu rhoi ar waith neu'u gwella. Roedd natur y sylwadau a'r awgrymiadau hyn yn aml yn benodol i'r Dangosydd neu'r Garreg Filltir Genedlaethol benodol dan sylw. Caiff y sylwadau a'r awgrymiadau hyn eu trafod yn fanylach ym mhenodau perthnasol yr adroddiad.

Roedd nifer o themâu trosfwaol i natur y sylwadau a'r awgrymiadau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr ar draws gwahanol Ddangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol. Roedd rhai eisiau gweld gweithredu mwy pendant, er enghraifft, yn arbennig yn achos Cerrig Milltir Cenedlaethol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac sy'n hybu amcanion amgylcheddol. Cynigiodd yr ymatebwyr hefyd ystyriaethau neu rwystrau ymarferol i gyflawni Cerrig Milltir Cenedlaethol penodol. Ymhlith eraill, roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd cymorth i godi lefelau cymwysterau, rhuglder yn y Gymraeg, ac ymddygiadau iach, ac i ba raddau mae'r cymorth ar gael. Ystyriaeth gyffredin arall oedd pwysigrwydd gwybodaeth a data pellach i gynorthwyo penderfyniadau ac ymatebion polisi cyhoeddus sy'n gweithio tuag at Gerrig Milltir Cenedlaethol penodol. O'r safbwyntiau hyn, roedd y Dangosyddion Cenedlaethol eu hunain yn cynnig darlun pwysig ond ymarferol o'r materion sylweddol sydd ynghlwm wrth Garreg Filltir Genedlaethol. Byddai data pellach yn werthfawr er mwyn datblygu ymatebion effeithiol.

Er myfyrio'n ehangach ar y prif fanylion, roedd cytundeb ynglŷn â theimlad cyffredinol a phwysigrwydd y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion. Mae hyn yn rhoi sylfaen pwysig i fynd i'r afael â'r materion sydd ynghlwm wrth y Cerrig Milltir Cenedlaethol, gan gynnwys adeiladu consensws a gweithio tuag at y cerrig milltir eu hunain gyda phwrrpas cyffredin.

Ymgylfarwyddo â'r Ddogfen Hon

Wrth gyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad, mae'r adroddiad yn dilyn strwythur cyffredinol y ddogfen ymgynghori ei hun. Caiff barn yr ymatebwyr ei dadansoddi yn ôl meysydd penodol y cynigion mewn penodau unigol yn yr adroddiad. Caiff crynodeb trosfwaol, cyffredinol, ei ddarparu yn y [Casgliadau](#).

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i ymgynghoriad Llunio Dyfodol Cymru. Mae'n cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol.

1.1 Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol yn y gyfraith i gyrff cyhoeddus geisio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Golygodd y Ddeddf mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu dros lesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn deall y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at wireddu'r Ddeddf, cyflwynodd Llywodraeth Cymru 46 o Dangosyddion Cenedlaethol yn 2016. Caiff y Dangosyddion Cenedlaethol hyn eu diweddarau'n rheolaidd fel y bydd mwy o ddata ar gael.

Mewn cydweithrediad ag amryw randdeiliaid, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu Cerrig Milltir Cenedlaethol a fyddai'n dargedau wedi'u gosod yn erbyn y Dangosyddion Cenedlaethol. Mae'r Cerrig Milltir Cenedlaethol yma'n cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, a'r bwriad yw cyd-lunio Cerrig Milltir Cenedlaethol sy'n gyraeddadwy a helpu Cymru i symud tuag at y nodau llesiant a gyflwynwyd yn y Ddeddf.

Fel rhan o'r broses hon, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad o'r enw 'Llunio Dyfodol Cymru' ym mis Medi 2021. Gwahoddwyd amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, busnesau, a chyrff sector cyhoeddus, i ymateb i'r cynigion a mynegi'u barn. Mae'r cynigion sylweddol ynghylch y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol i'w gweld [fan yma](#). Mae'r cwestiynau a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad i'w gweld yn [Atodiad 1](#).

Diben yr adroddiad hwn yw cyfleu'r themâu, y materion a'r pryderon allweddol a godwyd ar draws yr ymatebion. Ystyriwyd yr adborth gan Gabinet Llywodraeth Cymru, cyn i'r Cerrig Milltir a'r Dangosyddion Cenedlaethol arfaethedig gael eu cyflwyno gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2021.

Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn ceisio datblygu ail set o Gerrig Milltir Cenedlaethol gan gydweithio'n agos â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach, cyn i'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol arfaethedig gael eu cyflwyno eto er ymgynghoriad cyhoeddus yn 2022.

1.2 Ymatebion

Rhwng mis Medi a mis Hydref 2021, derbyniodd yr ymgynghoriad 94 o ymatebion ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys 23 o ymatebion gan unigolion, a 5 gan rai a oedd yn dymuno aros yn ddienw.

Tabl 1: Proffil o'r Ymatebwyr

Sector	Nifer yr ymatebion
Sector Cyhoeddus	28
<i>Awdurdodau Lleol</i>	13
<i>Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru</i>	6
<i>Byrddau Iechyd</i>	6
<i>Cyrff sector cyhoeddus eraill</i>	2
<i>Byrddau partneriaeth</i>	1
Trydydd Sector	31
<i>Elusen neu nid-er-elw</i>	19
<i>Sefydliad aelodaeth</i>	12
Arall	35
<i>Unigolion</i>	23
<i>Penodiadau cyhoeddus</i>	4
<i>Addysg Uwch</i>	1
<i>Undebau Llafur</i>	2
<i>Anhysbys</i>	5
Cyfanswm	94

Mae'r 67 o sefydliadau a fynegodd eu barn yn cynrychioli amrywiaeth eang o gyrff gwirfoddol, preifat a chyhoeddus sy'n gweithio yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau eirioli, hyd at gyrff cyhoeddus sy'n gweithio ar draws meysydd iechyd, addysg a llywodraeth leol. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a gyfrannodd i'r ymgynghoriad i'w gweld yn [Atodiad 2](#).

1.3 Dull Dadansoddi

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr, ym mis Medi 2021 comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad ymchwil annibynnol Wavehill i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion. Bwriad y dadansoddiad oedd deall a mapio'r amrywiaeth o farn a safbwyntiau sydd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r cynigion ynghylch y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol.

Er mwyn dadansoddi'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd awduron yr adroddiad hwn ddadansoddiad thematig manwl. Mae'r dull hwn yn archwilio pob ymateb yn systematig ac yn tynnu sylw at y themâu a'r materion sy'n cael eu codi. Ar sail y dadansoddiad hwn, gall y tîm wedyn archwilio pa mor gyffredin yw barn a safbwyntiau penodol.

1.4 Cyfyngiadau

Mae nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â'r dadansoddiad hwn sy'n bwysig i'w nodi. Nid yw'r ymatebwyr a fu'n ddigon caredig i gyfrannu eu barn a'u safbwyntiau o anghenraid yn gynrychioliadol o'r gymuned ehangach o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn y cynigion. Mae'r tebygolrwydd uchel o hunan-ddewis a'r nifer cymharol fach o ymatebion gan grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn cynyddu'r posibilrwydd bod gan y rhai a ymatebodd farn a safbwyntiau sy'n wahanol yn ansoddol i farn a safbwyntiau sydd i'w canfod ymysg pobl a chymunedau ledled Cymru yn fwy cyffredinol.

Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod y dadansoddiad hwn yn dangos rhywfaint o'r farn a'r safbwyntiau sydd gan bobl, cymunedau a sefydliadau mewn perthynas â'r cynigion, yn hytrach na'i fod yn rhoi cyfrif pendant o farn pobl ledled Cymru.

1.5 Ymglyfarwyddo â'r Adroddiad Hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r themâu a'r safbwyntiau allweddol a godwyd ar draws yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae pob set o Ddangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol arfaethedig yn cael ei thrafod yn ei phennod ei hun. Caiff themâu ac arsylwadau cyffredinol, troswaol eu cyflwyno yn y [Casgliadau](#).

Trown yn awr i amlinellu'r prif themâu sy'n codi yn erbyn pob un o'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

2 Cymwysterau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf am eu barn ar Ddangosydd Cenedlaethol 8, sef y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.¹ Mae'r Dangosydd Cenedlaethol hwn yn sail i Gerrig Milltir Cenedlaethol 1 a 2, sy'n ceisio gwelliannau yn y gyfran o'r bobl sy'n ennill cymwysterau Lefel 3 ac uwch, yn ogystal â lleihad yn y gyfran o'r bobl sydd heb unrhyw gymwysterau:

Dangosydd Rhif 08	Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol		
	1 Cymru lewyrchus	3 Cymru iachach	4 Cymru sy'n fwy cyfartal
Carreg Filltir 1	Bydd 75% o oedolion o oed gweithio yng Nghymru wedi'u cymhwyso i Lefel 3 neu uwch erbyn 2050		
Carreg Filltir 2	Bydd canran yr oedolion o oed gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu'n is ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050		


Mae Carreg Filltir 1 yn adlewyrchu pwysigrwydd cymwysterau Lefel 3 (sy'n cyfateb i Safon Uwch). Maen nhw'n cael eu hystyried yn bwysig er mwyn cael mynediad i swyddi sgiliau uchel yn ogystal ag addysg bellach ac uwch. Mae'r Garreg Filltir uchod yn cyfeirio at y lefel y gall gweithwyr masnach proffesiynol ymgymryd â rolau technegol lefel uchel, gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i weithio'n annibynnol ac ychwanegu gwerth i gyflogwyr.

Bwriad yr ail Garreg Filltir Genedlaethol yw cynorthwyo'r rhai sydd heb unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn cael ei ystyried yn bwysig, ac mae'r data'n awgrymu nad oes gan ganran uwch o oedolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru unrhyw gymwysterau. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y dylai mynd i'r afael ag anghydraddoldebau fel yma fod yn un o'r uchelgeisiau sylfaenol wrth osod Cerrig Milltir Cenedlaethol a'r camau a'r gweithgareddau a wneir ar y cyd o ganlyniad i hynny.

¹ Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r ddwy garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 8 Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol? Ydw/Nac ydw a) Os ydych yn cytuno â nhw, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig? b) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhwch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Canfyddiadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth ysgubol i brif sylwedd a bwriad y Dangosydd Cenedlaethol a'r Cerrig Milltir mewn perthynas â chymwysterau. Gyda'i gilydd, roedd 92.4 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol, gan gynnwys y ddwy Garreg Filltir Genedlaethol sy'n cael eu cefnogi gan y Dangosydd Cenedlaethol:



C1: N= 67, y nifer na wnaeth ymateb N= 27

Wrth asesu eu barn ymhellach, roedd 41.5 y cant o'r ymatebwyr hefyd yn cynnig awgrymiadau o sut gallai'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol gael eu gwella. O'r safbwyntiau hyn, roedd y dull gweithredu cyffredinol yn briodol, er bod ystyriaethau pellach wrth weithio tuag at y Cerrig Milltir Cenedlaethol, gan gynnwys heriau ymarferol.

Themâu Allweddol

Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau

Roedd thema allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ynghylch cymwysterau. Er mwyn cyflawni'r targedau hyn, nododd 15 o ymatebwyr eu bod yn teimlo ei bod yn hanfodol bod cymorth ar gael i waredu rhwystrau i addysg a hyfforddiant. O'r safbwyntiau hyn, roedd rhwystrau i ddysgu yn golygu bod anghydraddoldebau'n parhau ynghylch cymwysterau. Awgrymodd rhai hefyd y dylai cymorth a mynediad i ddysgu ganolbwyntio'n weithredol ar oresgyn anghydraddoldebau penodol yn ymwneud, er enghraifft, â rhywedd, hil, rhai sydd â chyflyrau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ac oedran:

Yn ddiweddar, gwelsom nifer o bobl hŷn, a oedd wedi ymddeol, yn dychwelyd i weithio. Gallai hyn fod drwy ddewis ac er mwyn parhau'n gymdeithasol neu allan yn eu cymunedau. Fodd bynnag, gallai fod drwy ddewis oherwydd incwm pensiwn sefydlog, annigonol, sydd ddim yn diwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae llawer o'r bobl hŷn

yma'n wynebu anawsterau a gwahaniaethu wrth geisio cael swydd, gan fod angen cymwysterau yn y maes digidol bellach, nad oes gan lawer o bobl hŷn. Prin hefyd yw'r opsiynau hyfforddiant i bobl hŷn ddysgu'r sgiliau hyn (galwn am hawl i gysylltedd digidol yn ein hymateb i Gwestiwn 12). Mae 2050 yn rhy bell i ffwrdd i bobl hŷn yng Nghymru heddiw gael mynediad i'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gael gwell mynediad i'r farchnad swyddi.

Gofal a Thrwsio Cymru

Cerrig Milltir Cenedlaethol Mwy Uchelgeisiol

Thema allweddol arall a godwyd gan 11 o ymatebwyr oedd pwysigrwydd gosod targedau mwy uchelgeisiol ynghylch cymwysterau. O'r safbwyntiau hyn, roedd targed 2050 yn gyfnod rhy hir o amser i gyflawni'r gwelliannau arfaethedig i lefelau cymwysterau:

Mae Cyngor Sir Fynwy hefyd ar hyn o bryd yn cyrraedd y Garreg Filltir Genedlaethol ar gyfer y ganran o oedolion o oed gweithio heb gymwysterau yn 5 y cant neu'n is. Gall hyn newid dros amser. Mae gosod carreg filltir ar gyfer 2050 yn gyfnod rhy hir o amser i'r dangosydd hwn. Cafwyd gwelliant o 2.9 pwynt canran yng Nghymru rhwng 2019 a 2020. Nid yw cynnydd o lai nag 13 pwynt canran yn y 30 mlynedd nesaf yn ddigon ymestynnol (Carreg Filltir 1 / Dangosydd 8).

Cyngor Sir Fynwy

Cysylltiadau Rhwng Cymwysterau a Gwaith

Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd y cysylltiadau rhwng cymwysterau a'r farchnad lafur. O'r safbwyntiau hyn, roedd cymwysterau'n bwysig mewn perthynas â chynorthwyo unigolion i ddatblygu sgiliau perthnasol a hyder, gan gynnwys o ran cael gwaith. Yn benodol ac yn ymhlyg o'r safbwyntiau hyn, efallai na fyddai ceisio gwelliannau cyfartalog mewn lefelau cymwysterau ar draws y boblogaeth gyffredinol ynddo'i hun yn arwain yn uniongyrchol at welliannau mewn cynhyrchiant a chyflogaeth. Y pryder o'r safbwyntiau hyn yw y gallai ffocws ar gymwysterau eu hunain arwain at orgyflenwad o sgiliau penodol a lefelau uwch o dangyflogaeth yn y farchnad lafur:

Ni ddylem fod yn parhau i baratoi pobl ifanc at swyddi na fydd yn bodoli ac sydd heb alw amdanynt ymhen pum, deg, pymtheg mlynedd. Mae'r gwaith dadansoddi a wnaethom yn dweud nad oes gan raglenni sgiliau a chyflogadwyedd presennol yng Nghymru ffocws ar y dyfodol, ac mae prentisiaethau, addysg, hyfforddiant a buddsoddiad yn aml wedi'u modelu ar hen dueddiadau diwydiannol. Bydd angen ailwampio'r rhain yn llwyr wrth i Gymru drawsnewid i ddyfodol mwy cynaliadwy.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mwy o ddiffiniadau o gymwysterau a sut maen nhw'n cysylltu â rhagolygon gwaith. Does dim diben cael llawer o bobl â graddau os nad oes yno'r swyddi sy'n galw am y sgiliau yma.

Unigolyn

Darparu Llwybrau Dilyniant

Gan gysylltu'n agos â thema mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn lefelau cymwysterau, roedd rhai'n teimlo ei bod yn bwysig darparu ac ehangu cyfleoedd i ddatblygu hyd at gymwysterau Lefel 3. Byddai hyn yn galw am fwy o gyfleoedd i bobl weithio tuag at gymwysterau Lefel 1 a 2. O'r safbwyntiau hyn, byddai darparu llwybrau dilyniant yn bwysig er mwyn cyrraedd Carreg Filltir Genedlaethol 1.

Er mwyn cyflawni cymwysterau Lefel 3, mae angen bod yno llwybrau dilyniant priodol sy'n caniatáu i ddinasyddion gyrraedd trothwy Lefel 3. Mae'n bwysig sicrhau nad yw ffocws ar drothwy Lefel 3 yn lleihau pwysigrwydd cymwysterau lefel is, nac i ba raddau maen nhw ar gael, sy'n gamau dilyniant tuag at drothwy Lefel 3.

Estyn

Heriau Ymarferol

Mynegodd yr ymatebwyr nifer o heriau ymarferol er mwyn cyflawni Cerrig Milltir Cenedlaethol 1 a 2. Roedd y rhain yn cynnwys gwaredu rhwystrau i hyfforddiant, ehangu'r ddarpariaeth, mwy o gyllid, a sicrhau llwybrau dilyniant. Ystyriaeth arall a fynegwyd gan ymatebwyr oedd yr amrywiaeth sylweddol yn lefelau'r cymwysterau yr oedd pobl yn meddu arnynt yn lleol. O'r safbwyntiau yma, mae heriau llym yn wynebu rhai ardaloedd, yn enwedig rhai awdurdodau lleol. Heb fwy o gymorth wedi'i dargedu, teimlodd yr ymatebwyr fod y gwahaniaethau hyn yn debygol o barhau:

O ystyried yr amrywiaeth eang iawn yn y lefelau presennol o oedolion sydd heb gymwysterau, bydd Carreg Filltir 2 (oedolion o oed gweithio heb gymwysterau <5% ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru) yn her ar raddfa wahanol iawn i wahanol awdurdodau lleol. Bydd yn bwysig sicrhau bod targedau lleol yn cael eu gosod, a bod adnoddau priodol yn cael eu dyrannu, er mwyn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gwella, ac nad yw ffigwr cenedlaethol yn cuddio anghydraddoldebau ar lefel leol.

Estyn

Parch Cydradd Rhwng Cymwysterau

Roedd teimlad hefyd bod y cynigion yn rhoi ffocws ar natur hierarchaidd gwahanol gymwysterau. O'r safbwyntiau hyn, roedd yn bwysig dangos pwysigrwydd gwahanol llwybrau at ddysgu a chymwysterau, gan gynnwys cyfleoedd dysgu technegol a mwy academiaidd. Pwynt arall y cyfeiriwyd ato oedd bod y fframweithiau cymwysterau'n dueddol o danbrizio cymwysterau mwy technegol, gan gynnwys prentisiaethau a dysgu yn y gwaith.

Mynediad llawn i gyfleoedd dysgu academiaidd ac ymarferol i ddiwallu anghenion dysgu'r boblogaeth, h.y. prifysgol, colegau, prentisiaethau, a dysgu yn y gwaith. A statws cydradd i bob un er mwyn osgoi elitiaeth.

Unigolyn

Mwy o Werthfawrogiad o Waith 'Heb Lawer o Sgiliau'

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai'r Garreg Filltir Genedlaethol a'r ymdrech tuag at addysg bellach ac, yn ddamcaniaethol, swyddi sgiliau uwch, gael effaith negyddol ar ddiwydiannau 'heb lawer o sgiliau'. Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd y diwydiannau hyn i gymdeithas a'r ffaith y bydd yn rhaid i rai rolau, sy'n cael eu hystyried yn rhai 'heb lawer o sgiliau', gael eu llenwi hyd yn oed pe byddai lefelau cymwysterau'n cynyddu yng Nghymru. Ar y llaw arall, roedd yno ymatebwyr hefyd a oedd yn pryderu y gallai'r cynnydd hwn mewn cymwysterau a mwy o fynediad i swyddi 'sgiliau uwch' arwain at fwlch rhwng y rhai yn y naill garfan a'r llall.

Mae cydberthyniad rhwng addysg a chynhyrchiant a budd ariannol ond nid yw hyn yn creu cymdeithas fwy cyfartal. Mae'r term gwaith 'heb lawer o sgiliau' yn ddifriol, fel y mae labelu pobl heb gymwysterau ffurfiol yn rhan o broblem sydd angen ei datrys. Mae angen i ni werthfawrogi'r sgiliau ym mhob maes gweithgarwch, os ydynt yn talu'n dda neu beidio!

Unigolyn

Cerrig Milltir Cenedlaethol Sydd â Mwy o Ffocws

Awgrymodd eraill y byddai Cerrig Milltir Cenedlaethol manylach yn werthfawr er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy penodol o gynnydd a helpu wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys Cerrig Milltir Cenedlaethol interim, er enghraifft. O'r safbwyntiau hyn, gallai Cerrig Milltir Cenedlaethol manylach fod yn offer mwy effeithiol er mwyn llywio penderfyniadau a gyrru cynnydd:

Byddem yn awgrymu datblygu map ffordd at targed 2050 sy'n cynnwys cerrig milltir interim i helpu i olrhain cynnydd, a gwneud unrhyw addasiadau ac ymyriadau sydd eu hangen. Byddem hefyd yn awgrymu bod targedau diwygiedig yn cael eu gosod pe byddai un neu ddwy o'r Cerrig Milltir Cenedlaethol hyn yn cael eu cyrraedd cyn 2050. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i awdurdodau lleol sydd ar hyn o bryd â lefel uwch o oedolion o oed gweithio sydd â chymhwyster Lefel 3 neu ganran cymharol is o oedolion o oed gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau.

Plant yng Nghymru

Barn Rhanddeiliaid

Gwnaeth nifer o randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn cymwysterau, addysg a hyfforddiant ymateb i'r ymgynghoriad. Ymhlith eraill, roedd y rhain yn cynnwys Colegau Cymru, Estyn, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

Roedd y rhanddeiliaid hyn yn unfrydol eu cefnogaeth i'r ddwy Garreg Filltir Genedlaethol arfaethedig. Fodd bynnag, nododd llawer eu bod yn teimlo bod angen ystyried y cymorth fyddai'n ofynnol i helpu'r holl bobl ifanc yng Nghymru i gyflawni cymwysterau Lefel 3. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a allai fod yn wynebu anghydraddoldebau'n seiliedig ar eu hil, rhyw neu anabledd.

Mynegodd CCAUC hefyd bwysigrwydd adlewyrchu canlyniadau addysg uwch yn y cynigion. O'r safbwynt hwn, dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynnwys mesurau sy'n ceisio deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad y tu hwnt i gymwysterau Lefel 3:

Rydym yn gwerthfawrogi'r naratif sydd wedi'i gyflwyno yn y ddogfen ymgynghori bod cymwysterau Lefel 3 yn borth i swyddi sgiliau uchel ac addysg uwch, ac rydym yn cytuno. Fodd bynnag, byddem yn dadlau bod mesur y nifer sy'n derbyn cymwysterau uwch yn werthfawr yn ei hanfod. At hynny, byddem yn awgrymu mai'r Cerrig Milltir Cenedlaethol yw'r lle priodol mewn ffordd gyfannol i fesur amcanion eang Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymwysterau.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

3 Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ynghylch Dangosydd Cenedlaethol 22, sef y ganran o'r bobl sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.² Mae'r Dangosydd Cenedlaethol hwn yn sail i Garreg Filtir Genedlaethol 3, sy'n ceisio gwella'r ganran o bobl ifanc (16 i 24 oed) sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant:


Dangosydd Rhif 22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (gwahanol grwpiau oedran)			
	1 Cymru lewyrchus	4 Cymru sy'n fwy cyfartal		
	3 Cymru iachach	5 Cymru o gymunedau cydlynus		
Carreg Filtir 3	Bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050			

Mae Carreg Filtir Genedlaethol 3 yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n awgrymu y gall cyfnodau o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn gynnar ym mywyd gwaith unigolyn gael effaith andwyol ar amrywiaeth o ganlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Rhagwelir y bydd cyflwyno'r Garreg Filtir Genedlaethol hon yn sbarduno adnoddau a gweithgarwch mewn perthynas ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i bobl ifanc, ac y bydd y cymorth hwn yn helpu i gryfhau ymgysylltiad ieuenctid a dilyniant.

² C2: Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer Dangosydd 22 Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran? Ydw/Nac ydw a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig? b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Canfyddiadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth ysgubol i gynnwys Carreg Filltir 3. Roedd cyfanswm o 94 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r cynigion:



C2: N= 67, y nifer na wnaeth ymateb N= 27

At hynny, roedd 53 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull cyffredinol ac yn cynnig awgrymiadau o sut y gallai'r Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol gael eu gwella.

Themâu Allweddol

Ystyriaeth ar gyfer Nodweddion Gwarchodedig

Thema allweddol oedd pwysigrwydd casglu mwy o wybodaeth am nodweddion gwarchodedig er mwyn cynorthwyo'r Garreg Filltir Genedlaethol. Mynegodd cyfanswm o naw o ymatebwyr ddiddordeb mewn ystyried materion fel hil, rhywioldeb, anabledd, a hunaniaeth rhywedd yn y cynigion. O'r safbwyntiau hyn, byddai'r wybodaeth hon yn werthfawr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghydraddoldebau mewn canlyniadau ymysg pobl ifanc 16-24 oed, ac er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hynny:

Mae angen dadansoddi nid yn unig yn ôl oedran a rhywedd ond, yn bwysig, yn ôl hil ac anabledd. Mae tudalen 14 y ddogfen ymgynghori yn nodi'r gwahaniaeth yn y cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, a phobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o gymharu â phobl o gefndir Gwyn. Mae'n debygol iawn felly bod hil ac anabledd yn effeithio ar debygrwydd unigolyn o fod mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Dylid defnyddio'r un ymagwedd â'r hyn a ddefnyddiwyd tuag at Gerrig Milltir Cenedlaethol arfaethedig blaenorol ar gyfer Dangosydd 8 fan yma – gellir rhagdybio y bydd yn bosibl cyrraedd y targed o 90 y cant mewn ffordd

anghyfartal, er enghraifft drwy beidio â mynd i'r afael â materion sy'n benodol i bobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Colegau Cymru

Cysylltiadau rhwng Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Mynegodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n eu cynorthwyo i ddod o hyd i gyflogaeth. O'r safbwyntiau hyn, mae gallu'r bobl ifanc i bontio'n llwyddiannus i gyflogaeth yn cysylltu'n agos â'r mathau o sgiliau ac arbenigedd y gallant ddatblygu drwy addysg a hyfforddiant. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at brinder sgiliau cenedlaethol, megis ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Felly byddai ehangu addysg a hyfforddiant perthnasol sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â phrinder sgiliau a staffio mewn sectorau penodol yn bwysig er mwyn cyrraedd y Garreg Filltir Genedlaethol:

Nid yw heriau recriwtio a chadw yn y gweithlu gofal plant ac addysg gynnar yn beth newydd i'r sector. Mae gofynion rhaglenni a chynlluniau gan gyllidwyr fel Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn rhoi pwysau gwaith cynyddol ar y gweithlu. Gwyddom o brofiad fod angen i werth y gweithlu gofal plant ac addysg gynnar i'r economi gael ei gydbwyso â'r diffyg cydnabyddiaeth a pharch i'r sector. Bydd angen gweithio gyda darparwyr iaith Gymraeg arbenigol, fel adran hyfforddiant Mudiad Meithrin, i sicrhau y gall y sector gynnig cynllun hyfforddiant a phrentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mudiad Meithrin

Pwysigrwydd Dysgu Oedolion

Thema arall, fwy ymylol, oedd y posibilrwydd o ehangu'r Garreg Filltir Genedlaethol i gynnwys pob oedolyn. O'r safbwyntiau hyn, roedd yn bwysig cynorthwyo pawb sy'n cychwyn mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth:

Dylai ddangos y ganran ar gyfer pob oedolyn.

Unigolyn

Nododd sawl sefydliad fod oedolion hŷn yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau sylweddol i dderbyn cyfleoedd addysg a hyfforddiant. Teimlodd yr ymatebwyr hyn ei bod yn bwysig mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad, gan gynnwys ehangu cyfleoedd i oedolion hŷn:

Mae pobl hŷn yn aml yn wynebu gwahaniaethu ar sail oedran a phrinder cyfleoedd gwaith yn sgil prinder cyfleoedd i uwchsgilio. Am hynny, credwn y dylai'r garreg filltir hon hefyd gynnwys dysgu oedolion: mae llawer o bobl hŷn yn dymuno newid gyrfa tra eu bod yn oedolyn ond yn gweld bod rhaglenni hyfforddiant ac addysg yn anhygyrch. Mae grantiau presennol i bobl hŷn gael i mewn i addysg bellach yn gyfyngedig ac nid ydynt bob amser yn ddigonol i dalu costau llawn y cwrs.

Gofal a Thrwsio Cymru

Safbwyntiau Rhanddeiliaid

Roedd llawer o'r rhanddeiliaid sydd agosaf i'r Garreg Filltir Genedlaethol hon yn ei chefnogi heb nodi unrhyw ffordd i'w gwella. Roedd y sawl a fynegodd awgrymiadau a sylwadau'n dueddol o bwysleisio pwysigrwydd adlewyrchu grwpiau neu ddiwydiannau penodol y gallai'r cynigion eu hybu'n effeithiol. Er enghraifft, mynegodd Gofal a Thrwsio Cymru bwysigrwydd rhoi mwy o ystyriaeth i bobl hŷn nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET). Gwnaeth BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG, hefyd bwysleisio pwysigrwydd cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd digidol a thechnoleg:

Mae'r Garreg Filltir Genedlaethol hon yn gyfle i fanteisio ar dwf swyddi mewn technegol a'r diwydiannau digidol, a gwneud y mwyaf ohonynt. Mae gan Lywodraeth Cymru y cyfle i hwyluso cyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant hyfyw i bobl ledled Cymru, nid yn ei dinasoedd a'i threfi mawr yn unig. Bydd buddsoddi yn y seilwaith digidol cywir i ddenu, datblygu a chadw talent ledled Cymru a rhanbarthau, trefi a dinasoedd Cymru yn sicrhau bod ei holl ddinasyddion yn mwynhau buddion Cymru ffyniannus. Mae gan oes newydd, ar sail hwyluso gweithio hyblyg ac yn seiliedig ar seilwaith genedlaethol gadarn o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant digidol, y potensial i ailfywiogi llawer o ardaloedd Cymru yn economaidd a chymdeithasol.

BCS, Y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG

4 Cyflogaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn am Ddangosydd Cenedlaethol 21, sef y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith.³ Mae'r Garreg Filltir Genedlaethol (4) ar gyfer y dangosydd hwn am ddileu'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU, yn enwedig yn achos grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:


Dangosydd Rhif 21	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith		
	1 Cymru lewyrchus	3 Cymru iachach	4 Cymru sy'n fwy cyfartal
Carreg Filltir 4	Dileu'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar godi cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur		

Mae Carreg Filltir 4 eisiau adlewyrchu a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau ar anghydraddoldebau mewn cyfraddau cyflogaeth. Mae am fynd i'r afael â'r ffaith bod grwpiau gwarchodedig wedi'u tangynrychioli'n sylweddol yn y farchnad lafur yng Nghymru. Y nod drosfwaol yw cynyddu nifer y bobl sy'n gallu ymgymryd â gwaith cynaliadwy o ansawdd da, y maent yn cael cyflog teg ar ei gyfer. Mae hefyd am sicrhau bod hyn yn cael ei rannu'n deg yn ddaearyddol ac yn ddemograffig, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

³ C3: Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 21 Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith? Ydw/Nac ydw a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig? b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, roedd cefnogaeth ysgubol i'r Dangosydd Cenedlaethol a'r Garreg Filltir a awgrymwyd ynghylch cyflogaeth. Gyda'i gilydd, atebodd 89.4 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig:



C3: N= 66, y nifer na wnaeth ymateb N= 28

O'r rhai a fynegodd eu bod yn cytuno, cynigiodd 57 y cant sylwadau ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau ac ystyriaethau pellach.

Themâu Allweddol

Creu Swyddi Deniadol

Thema allweddol a godwyd gan 13 o ymatebwyr oedd pwysigrwydd cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith â sicrwydd sy'n talu'n dda. O'r safbwyntiau hyn, er mwyn gweithio tuag at y Garreg Filltir Genedlaethol, mae'n bwysig cynorthwyo i greu cyfleoedd gwaith deniadol. Awgrymodd rhai y dylai'r swyddi hyn fod ar bob lefel, gan gynnwys swyddi lefel mynediad a gwaith heb lawer o sgiliau. Awgrymwyd hefyd y gallai mwy o fuddsoddiad gan y wladwriaeth i dyfu busnesau helpu hyn.

Cytunwn â'r gosodiad bod cyflogaeth yn tyfu'n gyffredinol ac y dylai fod llai o wahaniaethau rhwng grwpiau. Rydym yn falch o weld ffocws ar gynyddu cyfranogiad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur... Rydym yn argymhell bod y garreg filltir hon yn cael ei hategu drwy edrych ymhellach ar yr arfer o ddefnyddio contractau dros dro yn y farchnad lafur a'i heffaith ar grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig... Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod pobl ifanc (16-24) yng Nghymru yn fwy tebygol o fod mewn swyddi ansicr a bod pobl o

leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau a gafodd eu cau yn ystod y pandemig.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Ffocws ar Grwpiau wedi'u Tangynrychioli

Croesawodd yr ymatebwyr hefyd y ffocws ar gynorthwyo grwpiau sydd ddim wedi'u cynrychioli'n ddigonol wrth iddynt geisio gwaith. Er mwyn gweithio tuag at y Garreg Filltir Genedlaethol, cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd deall y rhesymau sylfaenol pam fod grwpiau penodol yn profi rhwystrau mwy sylweddol i gael gwaith. O'r safbwyntiau hyn, byddai mwy o ddealltwriaeth yn werthfawr er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw rhwystrau y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu:

Cytunwn am y rhesymau sydd wedi'u cyflwyno yn y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, wrth gyflwyno'r canlyniadau wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig, bydd angen ategu hynny gan ddadansoddi'r rhesymau pam nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gweithlu a beth sydd angen newid, am na fydd y canlyniadau eu hunain yn gyrru newid.

Cyngor Sir Ceredigion

Creu Llwybrau Cyflogaeth

Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud mwy o waith i gryfhau ac ehangu llwybrau cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cysylltiadau agosach rhwng addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, megis drwy ddarparu prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant yn y gwaith:

Prentisiaethau â thâl lle caiff rhywun gynnig swydd ar y diwedd am dair blynedd o leiaf. Dylai hyn fod yr un peth ar gyfer myfyrwyr prifysgol a choleg.

Unigolyn

Eglurhad a Therminoleg

Thema fwy ymylol oedd pwysigrwydd cael mwy o eglurhad ynghylch termau fel 'cyfradd cyflogaeth' 'employment rate'. Teimlodd rhai bod y cysyniad o gyflogaeth yn go eang ac y gallai gwmpasu amrywiaeth eang o amgylchiadau a phrofiadau. O'r safbwyntiau hyn, byddai mwy o eglurhad yn werthfawr, gan gynnwys er mwyn deall materion fel y math o gyflogaeth a'i dwyster. Mynegodd eraill y gallai mwy o eglurder a dyfnder fod yn bwysig i sicrhau bod pob cyfraniad unigol yn cael ei ystyried yn werthfawr i gymdeithas, gan gynnwys y rhai sy'n ymgymryd â llafur di-dâl:

Mae tybiaeth benodol wrth fesur 'cyfranogiad yn y farchnad lafur' bod pobl o werth yn unig os ydynt yn cyfrannu i'r economi. Er enghraifft, mae'n anwybyddu opsiynau fel cydnabod ac ad-dalu am waith gofal di-dâl presennol (a gaiff ei wneud gan fenywod yn bennaf). Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ac ymgorffori ffyrdd o edrych ar

fertigau sy'n gwerthfawrogi pob ffurf ar waith y mae pobl yn ei wneud a'r ffordd maen nhw'n cyfrannu at gymdeithas.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Safbwyntiau Rhanddeiliaid

Unwaith eto, roedd y rhanddeiliaid allweddol ar y cyfan yn gefnogol o'r Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol. Thema fwy cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd pwysigrwydd sicrhau bod gan bobl swyddi o ansawdd da i symud i mewn iddynt:

Mae'r ffocws ar gyfranogiad yn y farchnad lafur yn cuddio'r nifer o bobl sydd mewn swyddi ansicr a chyflog isel. Nid yw cynyddu'r nifer o bobl yn y math yma o waith yn rhywbeth i ymgynghraedd ato os nad yw'n helpu pobl i ddianc rhag tlodi mewn gwaith.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Mewn perthynas â'r rhai sy'n cynnig cefnogaeth mwy negyddol neu amodol i'r cynigion, roeddent yn tueddi i anghytuno â chreu cymariaethau rhwng cyd-destunau Cymru a'r Deyrnas Unedig. O'r safbwyntiau hyn, mae marchnadoedd llafur y naill a'r llall yn cael eu dylanwadu gan wahanol dueddiadau lleol a macroeconomaidd, ac mae'n debygol na fyddai dadansoddiad cymharol yn fuddiol:

Dylai Cymru osod ei tharged ei hun ar gyfer y ganran o bobl sydd mewn gwaith heb gyfeirio at gyfradd y Deyrnas Unedig. Oherwydd er mwyn cael y cyfle gorau i fod yn garreg filltir gyraeddadwy, mae angen lleihau effaith ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Gallai penderfyniadau polisi a wneir gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon effeithio'n uniongyrchol ar gyfradd cyflogaeth y Deyrnas Unedig ac mae hynny y tu hwnt i reolaeth Cymru. Felly mae gosod targed ynglŷn â rhywbeth y mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth rannol drosti yn unig yn ymddangos rywfaint yn ofer. Gwell ffordd o fynd ati fyddai gosod targedau i gynyddu cyfranogiad grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn cyflogaeth er mwyn gweld cynnydd diffuant fan yma, yn hytrach na chodi'r ganran o bobl mewn gwaith ond methu â chael effaith go iawn ar grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol.

Colegau Cymru

5 Cydraddoldeb Cyflog


Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â Dangosydd Cenedlaethol 17, sef cydraddoldeb cyflog ar gyfer y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd.⁴ Mae'r Dangosydd Cenedlaethol yn sail i Garreg Filtir 5, sydd am ddileu'r bwlch cyflog ar gyfer y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050.

Dangosydd Rhif 17	Cydraddoldeb Cyflog – ar gyfer y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd	
	1 Cymru lewyrchus	4 Cymru sy'n fwy cyfartal
Carreg Filtir 5	Dileu'r bwlch cyflog ar gyfer y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050	

Mae Carreg Filtir Genedlaethol 5 yn cael ei hystyried yn gam hanfodol wrth weithio tuag at gymdeithas sy'n galluogi i bobl gyflawni'u potensial waeth beth yw eu cefndir neu'u hamgylchiadau. Er bod llawer o fylchau cyflog yn gostwng yn raddol dros amser, caiff ei nodi bod mesurau cyni a'r newidiadau i'r farchnad lafur wedi cyfrannu at ehangu gwahaniaethau cyflog, gan gynnwys yn ôl y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd.

Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, roedd cefnogaeth ysgubol i fwriad a ffocws y Dangosydd a'r Garreg Filtir Genedlaethol. Roedd cyfanswm o 95.4 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol:



C4: N= 65, y nifer na wnaeth ymateb N= 29

⁴ C4: Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 17 Cydraddoldeb Cyflog – o ran y rhywiau, gweithwyr anabl a gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig? Ydw/Nac ydw a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig? b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Themâu Allweddol

Pryderon Ynglŷn â'r Amserlen

Y thema allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr oedd y ddealltwriaeth nad oedd yr amserlen ar gyfer cyrraedd y Garreg Filltir Genedlaethol erbyn 2050 yn ddigon uchelgeisiol. Mynegodd cyfanswm o 10 o ymatebwyr y dylai'r amcan o gyflawni mwy o gydraddoldeb cyflog gael ei ddwyn ymlaen. Byddai gwneud hyn yn cynyddu'r brys sydd ar sefydliadau i weithredu er mwyn cyrraedd y Garreg Filltir Genedlaethol, gan gynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat:

Cytunwn â'r garreg filltir o ddileu'r bwlch cyflog ond mae 2050 yn rhy bell i ffwrdd, ac nid yw'n ddigon heriol nac yn dangos ymrwymiad i newid go iawn. Mae angen ei fframio yng nghyd-destun cyfle cyfartal i bawb.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

Dylai'r dyddiad targed ar gyfer y garreg filltir fod yn fwy uchelgeisiol a chael ei ddwyn ymlaen i 2035 neu 2040 yn hytrach na 2050 er mwyn gwneud i'r mater ymddangos yn fwy dybryd. Os caiff camau diffuant eu cymryd ar y cyd i ddileu'r bwlch cyflog, dylai hyn fod yn bosibl mewn llai na chyfnod o 28 mlynedd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod gwahaniaeth Cymru ar draws rhai grwpiau nodweddion gwarchodedig yn llai na chyfartaledd y Deyrnas Unedig.

Colegau Cymru

Ystyried Nodweddion Gwarchodedig

Roedd yn cael ei gydnabod yn gyffredinol gan yr ymatebwyr y byddai ymdrech bellach tuag at gyflog cyfartal yn cael ei chroesawu gan bawb. Roedd hefyd yn cael ei gydnabod bod y ffocws mwy ac ehangach ar wahaniaethau ar sail ethnigrwydd ac anabledd yn bwysig. Barn gyffredin yw y gallai casglu data ar amrywiaeth ehangach o nodweddion, yn ei dro, lywio datblygiad polisi a chamau mwy effeithiol i fynd i'r afael â chyflog cyfartal:

Rydym eisoes yn adrodd mewn perthynas â bylchau cyflog rhwng y rhywiau, ond nid ydym ar hyn o bryd yn adrodd mewn perthynas ag ethnigrwydd nac anabledd – a'r agwedd bwysicaf a welsom mewn perthynas ag adrodd ar fwllch cyflog rhwng y rhywiau yw'r hyn a wnawn â hynny – felly mae cael mynediad at ganllawiau o ansawdd da, yn seiliedig ar dystiolaeth, ar sut i leihau bylchau cyflog, gyda chamau pendant i gyflogwyr eu rhoi ar waith, mor bwysig ag adrodd y data yn y lle cyntaf.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot

Ystyried Croestoriadedd

Aeth rhai ymatebwyr yn bellach, gan nodi pwysigrwydd deall sut mae'r rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd yn croestorri. O'r safbwyntiau hyn, gallai rhai wynebu rhwystrau niferus i dderbyn cyflog cyfartal, ac roeddent hefyd yn dweud ei bod yn bwysig deall a myfyrio ar groestoriadedd wrth fynd i'r afael â'r fath rhwystrau:

Drwy ganolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig a'r bylchau cyflog cysylltiedig mewn seilos, mae perygl o anwybyddu croestoriadedd nodweddion gwarchodedig, a allai gael effaith negyddol gronnus ar unigolion. O'r herwydd, rydym yn annog yn gryf bod data'n cael ei gasglu wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchodedig, y gellir ei ddefnyddio a'i ddehongli mewn ffordd croestoriadol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Safbwyntiau Rhanddeiliaid

Roedd pob un o'r grwpiau rhanddeiliaid yn cytuno â theimlad y cynigion ynglŷn â chydaddoldeb cyflog. Roedd y rhai a fynegodd osodiadau amodol yn tueddu i bwysleisio pwysigrwydd ffactorau ehangach sy'n cyfrannu, o leiaf yn rhannol, at anghydaddoldeb cyflog. Pwynt allweddol o gonsensws oedd y ffaith bod llawer o anghydaddoldebau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig yn y gweithle yn mynd y tu hwnt i gyflog yn unig. Mae anghydaddoldeb cyflog yn aml yn ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd i gael dyrchafiad, cael mynediad i swyddi lefel mynediad â thâl is yn unig, ac i'r rhai ar gontractau dim oriau, nifer yr oriau a roddir:

Nid yw'n ddigon ystyried cyflog yn unig, ond mathau o gontractau, oriau, telerau ac amodau, a chyfleoedd i wneud cynnydd. Bydd hyn yn galw am gyllid sylweddol a gwybodaeth ddofn am y gweithleoedd a'r sectorau dan sylw. Bydd hefyd yn ofynnol i ymchwilyr fod â gwybodaeth am brosiectau blaenorol megis Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE), a oedd yn ystyried y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yn ôl gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan TCU a Runnymede, mae un o bob 20 (4.5 y cant) o fenywod sy'n gweithio o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig ar gontractau o'r fath, o gymharu â 2.5 y cant yn unig o ddynion Gwyn. Mae hyn hefyd yn pwysleisio gwahaniaeth croestoriadol rhwng rhyw a hil, ac felly rhaid i unrhyw ymchwil sy'n ystyried bylchau cyflog hefyd fod yn groestoriadol gan ddangos dealltwriaeth fanwl o'r anfanteision cyfunol sy'n wynebu gweithwyr â hunaniaethau lluosog.

TUC Cymru

Mae'r data ar gyfer y bylchau cyflog hyn yn tueddu i fod yn seiliedig ar gyflogau amser llawn yn unig, ac felly nid ydynt yn darparu darlun cynhwysfawr o anghydaddoldeb cyflog. Wrth edrych ar gyflog amser llawn yr awr, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw 4.2 y cant. Ond pan edrychwn ar gyfartaledd cyflog yr awr ar gyfer dynion a menywod yn gyffredinol, mae'r bwlch yn codi i 11.6 y cant. Mae hyn oherwydd y gosb cyflog am weithio'n rhan-amser. Mae gweithwyr amser llawn, ar gyfartaledd, yn ennill £13.73 yr

awr, o gymharu â £10.03 yr awr yn achos gweithwyr rhan-amser. Mae 40 y cant o fenywod yng Nghymru yn gweithio'n rhan-amser, o gymharu â dim ond 12 y cant o ddynion, yn aml am fod cyfrifoldebau gofal plant yn bennaf ar fenywod. Mae edrych ar gyflogau amser llawn yn unig wrth ystyried bylchau cyflog yn golygu anwybyddu ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb cyflog. Os yw data am fylchau cyflog am gael ei ddefnyddio fel dangosydd llinell frig ar gyfer anghydraddoldeb yn y farchnad lafur, wedyn mae'n hollbwysig bod data'n cael ei ystyried ar gyfer yr holl gyflogeion, nid y rhai sy'n gweithio'n amser llawn yn unig.

Chwarae Teg

6 Ymddygiadau Ffordd Iach o Fyw

Casglwyd barn yr ymatebwyr am Ddangosydd Cenedlaethol 5, sef y ganran o'r plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.⁵ Mae'r Garreg Filltir Genedlaethol gysylltiedig am leihau canran y plant â llai na dau ymddygiad iach i 6 y cant erbyn 2035 a llai nag 1 y cant erbyn 2050.

Dangosydd Rhif 05	Y ganran o'r plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw ²	
	3 Cymru iachach	5 Cymru o gymunedau cydlynus
	4 Cymru sy'n fwy cyfartal	
Carreg Filltir 6	Lleihau canran y plant â llai na dau ymddygiad iach i 6% erbyn 2035 a llai nag 1% erbyn 2050	


Yr 'ymddygiadau ffordd iach o fyw' ar gyfer plant sy'n cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghori yw peidio ag ysmegu, bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd, byth/anaml yn yfed alcohol, a bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol. Mae'r canllawiau gweithgarwch corfforol ar gyfer plant sydd wedi'u hamlinellu yn y Dangosydd Cenedlaethol yn cynghori 'bod yn gorfforol egniol am awr neu fwy, 7 diwrnod yr wythnos'.

Y rhesymeg y tu ôl i'r Dangosydd Cenedlaethol a'r Garreg Filltir yw bod plant iachach yn tueddu i fod yn fwy egniol ac iachach fel oedolion. Uchelgais y cynigion yw darparu cyfleoedd a chymorth, yn ogystal â dileu rhwystrau i blant wrth ddatblygu ymddygiadau iach a'u dilyn.

⁵ C5: Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 5 Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw? Ydw/Nac ydw a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig? b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd y canfyddiadau o'r Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol yn gadarnhaol, gyda 90 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol:



C5: N= 61, y nifer na wnaeth ymateb N= 33

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn cynigiodd 45 y cant sylwadau pellach, gan gynnwys sut gallai'r Garreg Filltir Cenedlaethol gael ei gwella.

Themâu Allweddol

Newid y Geiriad

Roedd thema allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys yr arsylwad bod y Garreg Filltir Genedlaethol wedi'i geirio'n negyddol. Awgrymwyd y byddai gwrth-droi geiriad y Garreg Filltir o 'leihau ymddygiadau nad ydynt yn iach' i ffurf fwy cadarnhaol megis 'cynyddu canran y plant sydd â mwy na dau ymddygiad iach' yn werthfawr.

Rydym wedi mabwysiadu'r dangosydd hwn fel un o 19 o fesurau canlyniad y Bwrdd. Bydd gennym ddiddordeb mawr hefyd i weld pa garreg filltir gaiff ei gosod, i weld a allwn fabwysiadu'r un garreg filltir ar gyfer ein sefydliad ni. Mae cael targed wedi'i fesur ar ddau gam yn ddefnyddiol. Mae gwella iechyd y boblogaeth a mynd ati'n rhagweithiol gydag ymyriadau cynnar yn flaenoriaeth allweddol i'r GIG yn ogystal â'n partneriaid gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Byddai'n braf gweld y targed hwn yn cael ei newid i ffurf gadarnhaol, h.y. cynnydd yng nghanran y plant sy'n dilyn dau neu fwy ymddygiad iach, gan y byddai hyn yn atgyfnerthu neges ffordd iach o fyw.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ystyriaethau Amgylchiadol

Er mwyn cyrraedd y Garreg Filltir Genedlaethol, cyfeiriodd yr ymatebwyr at bwysigrwydd ystyried ffactorau ehangach sy'n ffurfio ymddygiadau iach. Roedd hyn yn cynnwys y sylw bod rhai plant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau mwy sylweddol er mwyn dilyn ymddygiadau iach ac y byddai angen mwy o gymorth arnynt nag eraill. Awgrymwyd hefyd y gallai fod gan rai pobl ifanc sydd, er enghraifft, yn byw mewn tlodi, gyfrifoldebau gofalu, neu anawsterau iechyd meddwl o bosibl. O'r safbwyntiau hyn, dylai'r Dangosydd Cenedlaethol a'r Garreg Filltir Genedlaethol geisio mynd i'r afael â chyfyngiadau strwythurol ehangach sy'n wynebu plant a phobl ifanc wrth ddatblygu ymddygiadau iach.

Mae'n bwysig nodi rhwystrau strwythurol i ddilyn ymddygiadau iach (nid dewis/cyfrifoldeb unigolyn yn unig); er enghraifft, o wledydd y Deyrnas Unedig, Cymru sydd â'r gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn tlodi ac sydd ddim yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sef 42 y cant, herwydd meini prawf cymhwysedd cyfyngol a chyfradd uchel o dlodi plant.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Yr Angen am Gymorth

Yn cysylltu'n agos â phwysigrwydd amgylchiadau a chyfyngiadau strwythurol, awgrymwyd na ddylai baich hybu ymddygiadau iach gael ei roi ar deuluoedd yn unig. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar y rôl bwysig sydd gan lywodraeth a sefydliadau'r sector cyhoeddus i'w chwarae er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc:

Mae galluogi pobl i ddangos ymddygiadau iach, drwy ymyriadau ar lefel gymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â lefel unigol, yn hanfodol er mwyn atal afiechyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mesuriadau Ymddygiadau

Ystyriaeth bellach a godwyd gan ymatebwyr oedd mesur yr ymddygiadau eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys pa mor gywir a dibynadwy yw'r data sy'n cael ei fwydo i mewn i'r Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol. Yn ychwanegol at hyn, gofynnwyd cwestiwn pwysig, sef a yw'n deg cymharu ymddygiadau megis bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol dyddiol, ag yfed alcohol, ysmygu a defnyddio cyffuriau?:

Mae gwahaniaeth sylweddol ym mha mor gyffredin yw rhai o'r ymddygiadau iechyd sydd wedi'u cynnwys yn y dangosydd hwn. Er enghraifft, roedd 18 y cant o blant yn bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol dyddiol, ond roedd 81 y cant byth/prin yn yfed alcohol, ac roedd 94 y cant heb ysmygu erioed. O ystyried y gwahaniaethau sylweddol uchod, mae perygl y gallai cyfuno'r ymddygiadau iach hyn (ac eraill) i un mesuriad guddio newidiadau ystyrion. Byddai hynny felly'n cyfyngu ar werth y garreg filltir, yn arbennig wrth roi ystyriaeth hefyd i'r gwahanol oedrannau y mae'r ymddygiadau'n cychwyn a'r gwahanol gamau (ac ymdrechion) sydd eu hangen i'w cyflawni.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Thema fwy ymylol oedd pwysigrwydd cynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi profi trallod. Roedd hyn yn cynnwys profiadau megis bod yn dyst i drais domestig, rhiant yn cefnu arnynt yn sgil gwahanu neu ysgariad, a dioddef o esgeulustod. Serch hynny, nid oedd yn glir ai'r awgrym oedd cynnwys hyn fel un Dangosydd Cenedlaethol newydd o ymddygiad ffordd o iach o fyw neu fel set o ddangosyddion ar wahân.

Byddwn i hefyd yn cynnwys cyfeiriad at Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Unigolyn

Safbwyntiau Rhanddeiliaid

Roedd pob rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys byrddau iechyd, gwasanaethau plant a sefydliadau meddygol eraill yn cytuno â chynnwys y Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol. At hynny, prin iawn oedd y rhai a ddarparodd adborth ychwanegol ar sut hoffent weld y Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol yn cael eu gwella.

Maes consensws allweddol oedd pwysigrwydd deall ymddygiadau iach yn ddyfnach ac mewn mwy o fanylder, gan gynnwys demograffeg a ffactorau ehangach sy'n eu ffurfio neu'n dylanwadu arnynt. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyn yn bwysig er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau posibl mewn perthynas ag ymddygiadau iach:

Byddem yn awgrymu bod y data'n cael ei ddadgyfuno o leiaf yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd o ystyried nad un grŵp unffurf yw plant, a bydd casglu mwy o wybodaeth fanylach yn caniatáu i adnoddau gael eu targedu'n well lle mae angen gweithredu fwyaf. Dylid ystyried hefyd y berthynas â'r Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol sydd ar gyrff cyhoeddus, o wybod am y lefelau uwch o anghydraddoldeb iechyd a welir ymysg plant o gefndiroedd incwm isel mewn cymunedau mwy difreintiedig.

Plant yng Nghymru

At hynny, roedd sefydliadau hefyd yn teimlo y byddai angen cryfhau ac ehangu systemau cymorth er mwyn darparu cymorth i bob plentyn a theulu, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig:

Er ein bod yn cydnabod bod lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant yn chwarae rôl amlwg wrth osod sylfeini cadarn i fywyd iach, nodwn hefyd fod angen gweithredu a chynnal ymgyrchoedd sy'n annog teuluoedd a chymunedau i wneud dewisiadau iach. Nodwn hefyd fod angen gweithredu'n benodol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, gan fod unigolion sy'n byw yn y cymunedau hyn yn fwy tebygol o fod yn ordew na rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy cefnog.

Mudiad Meithrin

7 Ôl Troed Byd-eang Cymru


Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn am Ddangosydd Cenedlaethol 14, sydd am fesur ôl troed byd-eang Cymru.⁶ Mae'r Dangosydd Cenedlaethol hwn yn gysylltiedig â Charreg Filtir 7, sydd â'r nod o leihau ôl troed byd-eang Cymru drwy ddefnyddio dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd.

Dangosydd Rhif 14	Ôl Troed Ecolegol Cymru	
	1 Cymru lewyrchus	7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
	2 Cymru gydnerth	
Carreg Filtir 7	Dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y bydd Cymru'n ei defnyddio erbyn 2050	

Mae ôl troed byd-eang Cymru yn cael ei fesur ar sail yr hyn mae'n ei ddefnyddio, gan gynnwys bwyd, ynni ac adnoddau naturiol eraill. Mae sut orau i gasglu'r data yma yn dal i gael ei archwilio, ond unwaith y bydd y dull diweddaraf o fesur ôl troed wedi'i sefydlu, y disgwyl yw y bydd hyn yn helpu i lywio'r cynnydd tuag at y Garreg Filtir Genedlaethol.

Canfyddiadau Cyffredinol

Fel y bu'r achos drwy gydol yr ymgynghoriad, roedd cefnogaeth ysgubol i'r Dangosydd a'r Garreg Filtir Genedlaethol a gyflwynwyd, gydag 87.9 y cant o'r ymatebwyr yn ateb yn gadarnhaol:



C6: N= 66, y nifer na wnaeth ymateb N= 28

⁶ C6: Ydych chi'n cytuno â'r garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 14 Ôl Troed Ecolegol Cymru? Ydw/Nac ydw a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig? b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Themâu Allweddol

Angen Gweithredu'n Gynharach ac yn Fwy Pendant

Ar gyfer y Garreg Filltir Genedlaethol hon, dywedodd 14 o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod terfyn amser 2050 yn rhy bell i ffwrdd ac y dylid gweithredu'n fwy pendant i leihau ôl troed byd-eang Cymru:

Mae 2050 yn rhy bell i ffwrdd. Pe byddem ni'n siarad am y newid yn yr hinsawdd, fe fyddem ni'n rhy hwyr. Gwnewch e'n 2030.

Unigolyn

Natur Amlweddol y Garreg Filltir Genedlaethol

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at y cymhlethdod sy'n rhan annatod o ddeall ôl troed byd-eang Cymru a mynd i'r afael ag ef. O'r safbwyntiau hyn, roedd materion fel yr hyn a ddefnyddir yn galw am weithredu ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rheoleiddio, dewis defnyddwyr a newid ymddygiad. Byddai hyn hefyd yn galw am gasglu amrywiaeth o ddata a gwybodaeth, gan gynnwys, er enghraifft, am ddefnydd tir a dirywiad amgylcheddol, er mwyn cynorthwyo i ffurfio polisi'n effeithiol ar lefel genedlaethol:

...Cytunwn y dylai Cymru fabwysiadu'r enw 'Ôl Troed Byd-eang Cymru' yn Ddangosydd Cenedlaethol yn lle 'Ôl Troed Ecolegol Cymru'. Fodd bynnag, wrth fabwysiadu 'Ôl Troed Byd-eang Cymru' yn Ddangosydd Cenedlaethol, credwn y dylai Cymru wedyn fabwysiadu'r 10 o dargedau canlyniadau a nodwyd [yn adroddiad diweddar WWF, 'Thriving within our planetary means'] er mwyn mesur cynnydd yn erbyn dangosydd 'Ôl Troed Byd-eang Cymru'. Rydym yn cydnabod y bydd rhai o'r targedau canlyniadau yma'n galw am asesiad casglu data ar gyfer Cymru, ond ni ddylai hynny rwystro rhag gosod yr uchelgais cywir o ran beth i'w fesur.

World Wide Fund for Nature Cymru

Effeithiau Ehangach Posibl

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ystyriaethau ehangach ynghylch gweithio tuag at ddefnyddio adnoddau'n deg. O'r safbwyntiau hyn, ni ddylai cyrraedd y Garreg Filltir Genedlaethol ddod ar draul y rhai sy'n wynebu amddifadedd materol, o gymharu â gweddill y boblogaeth:

Dylai'r garreg filltir hon fod yn glir ynglŷn â sut bydd y daith tuag at gyflawni'r nod hwn yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Er enghraifft, gallai newidiadau'n ymwneud â defnydd tir a thrafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig i leihau'r ôl troed ecolegol neu fyd-eang effeithio, er enghraifft, ar hawliau menywod mewn ardaloedd gwledig i gael mynediad i addysg, swyddi, gofal iechyd a gwasanaethau cymorth eraill. Yn yr nu modd, nid yw'n

glir sut mae'r strategaethau addasu a lliniaru, gan gynnwys strategaeth hinsawdd leol, wedi ystyried yr effaith ar safon byw a hawliau plant.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Cyd-destun Byd-eang

Thema arall, fwy ymylol, oedd pwysigrwydd ystyried goblygiadau byd-eang y Garreg Filltir Genedlaethol. Roedd hyn yn ymwneud â goblygiadau ac effaith gymharol ôl troed llai ar ddefnyddio adnoddau'n fyd-eang. Teimlodd rhai, er enghraifft, y gallai Cymru wneud mwy i leihau ei hól troed, o ystyried y lefelau hanesyddol uchel o ddefnyddio adnoddau yng Nghymru a'r effeithiau cysylltiedig ar yr amgylchedd:

"Bydd Cymru'n defnyddio dim ond 90 y cant o'i chyfran deg o adnoddau'r byd erbyn 2050 i wneud yn iawn am flynyddoedd blaenorol" ddylai fod. Nid yw 100 y cant yn atgyweirio; dim ond atal rhagor o niwed mae hynny'n ei wneud. Gall hefyd fod yn fuddiol gwneud yn iawn am y niwed a wnaed i'r de byd-eang yn sgil gordefnyddio adnoddau.

Unigolyn

Safbwyntiau Rhanddeiliaid

Unwaith eto, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid allweddol a nodwyd yn cefnogi cynnwys y Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol. Roedd y rhai a gynigiodd sylwadau ehangach yn tueddu i fod yn ansicr ynglŷn â'r fethodoleg arfaethedig ar gyfer mesur 'cyfran deg' Cymru o adnoddau. Roedd heriau mesur mewn perthynas â'r Garreg Filltir Genedlaethol yn thema allweddol:

Dylai'r garreg filltir fod yn fwy penodol na 'chyfran deg', sydd heb ei diffinio yn y garreg filltir. Mae angen cyfathrebu'n glir sut mae'r ôl troed ecolegol yn cael ei ddiffinio, ac mae angen defnyddio mesur mwy diweddar, sy'n cael ei ddiweddarau'n aml, o'r ôl troed ecolegol. Dylai hyn hefyd gynnwys sawl carreg filltir interim ar hyd y ffordd i 2050.

Cyngor Sir Fynwy

O ystyried: "Rydym yn edrych ar ffordd orau o gofnodi pob ymyriad rydym yn ei gyfrannu at yr uchelgais hon ar hyn o bryd, a sut y gallwn gynhyrchu mesur Ôl Troed diweddar i helpu i'n harwain" a bod hyn yn fesur go oddrychol, a ydych am allu mesur/monitro/gwerthuso eleni? Mae cerrig milltir i fod i ddangos cynnydd a dangos beth a sut gall pobl a sefydliadau gyfrannu; nid yw hyn felly'n ymddangos yn garreg filltir arbennig o ddefnyddiol, er ei bod yn iawn fel targed. Efallai y dylid gohirio cyflwyno'r garreg filltir hon hyd nes bod ffordd gadarn ac amserol o gyfrifo, y gellir ei chymharu â chyfrifiadau blaenorol, yn cael ei datblygu.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Pwynt arall o gonsensws ymhlith rhanddeiliaid allweddol oedd natur amlweddol ôl troed byd-eang, nid yn unig o ran mesur olion troed, ond hefyd o ran datblygu camau lliniaru dilynol. Er enghraifft, nododd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) fod effeithiau peidio â lleihau ôl troed byd-eang Cymru yn amrywiol a dirfodol, i bobl ac anifeiliaid. Felly mae angen gweithredu'n gynhwysfawr ac ar frys a hynny mewn amryw feysydd:

Mae'r RSPCA yn cydnabod 'y bygythiad dirfodol i anifeiliaid a phobl' y mae'r newid yn yr hinsawdd yn ei gyflwyno yn ein strategaeth hyd 2030 a lansiwyd yn ddiweddar, sef Together for Animal Welfare; o'r herwydd, croesawn gynnwys y Cerrig Milltir Cenedlaethol yma. Wrth ystyried effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y newid yn yr hinsawdd ar les anifeiliaid, mae RSPCA Cymru yn cefnogi unrhyw gamau a gymerir i leihau'r risgiau hyn. Gall newidiadau eithafol yn y tywydd, gan gynnwys tân a llifogydd, beri risgiau sylweddol i fywydau anifeiliaid, yn ogystal â cholli cynefinoedd, a gall hefyd leihau ansawdd bwyd a dŵr ac arwain at newidiadau i ba mor gyffredin yw clefydau. Y mae felly'n hollbwysig i iechyd pobl ac anifeiliaid bod y peryglon sy'n codi yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn cael eu lliniaru gymaint â phosibl, a chroesawn fod hyn yn cael ei flaenoriaethu fel rhan o'r Garreg Filltir Genedlaethol a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid

8 Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Sero-Net


Gofynnwyd i'r ymatebwyr nesaf am eu barn am Ddangosydd Cenedlaethol 41, sef allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.⁷ Mae hyn yn bwydo i mewn i'r Garreg Filltir Genedlaethol o gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050.

Dangosydd Rhif 41	Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru			
	1	Cymru lewyrchus	3	Cymru iachach
	2	Cymru gydnerth	7	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Carreg filltir 8	Bydd Cymru yn cyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net erbyn 2050			

Daw'r Garreg Filltir Genedlaethol wedi i Senedd Cymru, ym mis Mawrth 2021, gymeradwyo targed o sero-net erbyn 2050. Mae hyn yn ceisio cydbwyso allyriadau a gwaredu nwyon tŷ gwydr drwy secwestru. Mae disgwyl i'r dull uchod ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth, cymunedau a busnesau gydweithio i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Canfyddiadau Cyffredinol

Nododd cyfanswm o 83 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn cefnogi Carreg Filltir Genedlaethol 8.



C7: N= 67, y nifer na wnaeth ymateb N= 27

⁷ C7: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fabwysiadu'r targed presennol o allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net fel carreg filltir genedlaethol? Ydw/Nac ydw b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhwch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

O'r ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn, roedd 45 y cant yn cytuno â'r dull sy'n cael ei gynnig gan y Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol, a hefyd wedi rhannu sylwadau ynglŷn â sut y gellid eu gwella ymhellach.

Themâu Allweddol

Angen Gwneud Mwy

Pryder allweddol a fynegwyd gan ddeg o ymatebwyr oedd bod angen gwneud mwy i atal allyriadau, gan gynnwys dwyn y Garreg Filltir Genedlaethol ymlaen o 2050. Ar un llaw, dywedodd rhai ymatebwyr, fel y gwnaethant yn flaenorol, fod 2050 yn amserlen rhy hir ac y dylai Llywodraeth Cymru weithredu'n gynharach i fynd i'r afael â hyn. Roedd eraill yn teimlo y dylai'r Garreg Filltir Genedlaethol fynd yn bellach, gan gynnwys bod, yn gyffredinol, yn net-leihawr o nwyon megis carbon:

Hoffwn weithio tuag at y garreg filltir hon yn gynt na 2050, fel yn yr Alban.

Unigolyn

Mae net-sero yn dda ond dylai fod yn lleihau carbon ac nid net-sero yn unig.

Unigolyn

Cydnabod bod hyn Fater Mwy na Chymru'n Unig

Myfyriodd eraill ar bwysigrwydd cydweithrediad rhyngwladol er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Roedd rhai'n teimlo na fyddai gwneud y newid hwn yng Nghymru yn effeithiol oherwydd diffyg addasu i garbon isel mewn gwledydd mwy sydd â ffigurau llygredd uwch. Mae'n werth nodi na wnaeth yr un o'r ymatebwyr hyn ddweud pam nad oedd hyn yn rheswm i Gymru beidio â mabwysiadu'r Garreg Filltir Genedlaethol a nodir uchod.

Ydy mae'n beth da a phwysig iawn, ond pa wahaniaeth all Cymru wneud pan fo gennym ni wledydd sy'n archbwerau sydd ddim yn poeni?

Unigolyn

Y Sector Cyhoeddus yn Arwain

Mynegodd saith o ymatebwyr hefyd, os oes cynnydd am gael ei wneud tuag at fod yn garbon niwtral, y dylai'r cyfrifoldeb fod ar sefydliadau mawr a'r sector cyhoeddus i osod esiampl ac arwain ar y mater:

Bydd rhoi'r ffocws ar y sector cyhoeddus i fod yn sero-net erbyn 2030 y fan cychwyn da ac yn rhoi enghreifftiau da o gamau y gallai eraill eu cymryd ar y daith o newid ymddygiad tuag at ffyrdd o fyw sy'n is o ran carbon. Bydd hefyd yn rhoi mynediad iddynt i wybodaeth a syniadau am sut gallant efelychu ar raddfa lai.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Effeithiau Ehangach

Thema fwy ymylol oedd y canfyddiad y gallai fod effeithiau ehangach, anfwriadol, wrth drosglwyddo i sero-net. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud Cymru'n llai cystadleuol yn economaidd, yn ogystal â hyfywedd cymunedau gwledig. O'r safbwyntiau hyn, gallai fod i'r Garreg Filltir Genedlaethol oblygiadau eraill i fywoliaeth pobl ledled Cymru.

Cysyniad yw hyn, nid realiti. Dim ond diferyn yn y môr, a dyhead, yw unrhyw beth a wnaiff Cymru. Hyd nes bod y gwledydd mawr yn cydymffurfio, h.y. Tsieina, Awstralia, India ac ati, gallai'r hyn a wnawn ni achosi mwy o ddifrod fel sgil effaith, e.e. corfforaethau mawr yn plannu coed ar dir ffermio Cymru. Nid yw'r coed yma'n frodorol ac maent yn dinistrio gallu ein cymuned i gynnal ffermydd, bywydau gwledig, diwylliant ac iaith. Felly mwy o niwed na daioni fel sgil-gynnyrch a chanlyniad.

Unigolyn

Canfyddiadau Rhanddeiliaid

Roedd bron i bob sefydliad a nodwyd yn rhanddeiliad allweddol yn cytuno â chynnwys targed sero-net. Safbwynt allweddol oedd bod angen gweithredu'n gyflymach ac yn fwy cynhwysfawr:

Yn ychwanegol at darged sero-net, mae hefyd angen i Lywodraeth Cymru osod cerrig milltir ar hyd y ffordd sy'n diffinio llwybr diogel i gyrraedd sero-net. Mae a yw Cymru'n parhau o fewn ei chyllideb garbon nid yn unig yn dibynnu ar gyrraedd y nod terfynol, ond hefyd ar wneud cynnydd da tuag at sero-net o'r cychwyn cyntaf, a pheidio â gadael yr holl doriadau allyriadau i ddegawdau sydd i ddod.

Cycling UK

Roedd deall canlyniadau trosglwyddo i sero-net a'r effeithiau posibl ar lesiant a bywoliaeth pobl yng Nghymru yn bwynt arall a godwyd i'w ystyried gan rhanddeiliaid. Er enghraifft, roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru yn pryderu ynghylch canlyniadau negyddol posibl gwrthbwysu carbon i ffermwyr a chymunedau gwledig:

Dylai capasiti amaethyddol cynhyrchol Cymru gael ei gynnal ai wella ac ni ddylai polisïau datgarboneiddio yng Nghymru arwain at newid defnydd tir ar raddfa eang. Rydym eisiau gweld dull gweithredu sy'n ymarferol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n gyfiawn yn economaidd a chymdeithasol ac yn seiliedig ar rannu tir ac nid neilltuo tir. Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cydnabod bod yn rhaid i gostau

trosglwyddo i sero-net gael eu taenu'n deg ar draws y gymdeithas. Yng nghyd-destun y targedau plannu coed eithriadol o uchelgeisiol y gwnaeth Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd eu hargymell i Lywodraeth Cymru, mae NFU Cymru yn ddiweddar wedi lansio ein Strategaeth Tyfu Gyda'n Gilydd ar gyfer cynyddu'r gorchudd coed yng Nghymru yn gynaliadwy. Galwn am sefydlu Comisiwn Pontio Teg yng Nghymru i sicrhau nad yw baich datgarboneiddio'n disgyn yn anghyfartal ar ein cymunedau gwledig. Rydym hefyd eisiau gweld fframwaith penderfynu i roi arweiniad i benderfyniadau ynghylch newid defnydd tir fel y gall yr effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor gael eu hasesu a'u deall yn iawn.

NFU Cymru

9 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg


Cyflwynwyd cwestiynau i'r ymatebwyr hefyd i gasglu'u barn ar Ddangosydd Cenedlaethol 37, sef nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.⁸ Y Garreg Filltir Genedlaethol ar gyfer y Dangosydd hwn oedd bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050:

Dangosydd Rhif 37	Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
	5 Cymru o gymunedau cydlynus
	6 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
	7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Carreg Filltir 9	Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Sefydlwyd y targed ar gyfer y Garreg Filltir Genedlaethol hon yn 2017 wrth gyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050, a oedd yn cyflwyno'r naratif ar gyfer sicrhau 'ffyniant y Gymraeg'. Drwy gymorth y sectorau addysg, gofal plant, a'r blynyddoedd cynnar, rhagwelir y bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg.

Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, roedd cefnogaeth eang i'r Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol yma ymysg ymatebwyr yr ymgynghoriad. Yn wir, er bod yr ymateb yn fwy cymysg nag i Ddangosyddion Cenedlaethol eraill, roedd y cefnogwyr yn dal i fod yn y mwyafrif llethol.



C8: N= 61, y nifer na wnaeth ymateb N= 33

⁸ C8: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fabwysiadu targed presennol Cymraeg 2050 sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel carreg filltir genedlaethol? Ydw/Nac ydw b) Os nad ydych yn cytuno â hi, rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

O'r rhai a roddodd eu hadborth ar y Dangosydd a'r Garreg Filltir Genedlaethol, awgrymodd 48 y cant eu bod yn cymeradwyo'r ddau, ond gan fynegi pwyntiau ychwanegol i'w hystyried wrth gyflwyno'r set yma.

Themâu Allweddol

Heriau Mesur

Roedd sut y byddai'r Garreg Filltir Genedlaethol hon a'r cynnydd tuag ati'n cael eu mesur yn un o'r themâu allweddol. O'r safbwyntiau hyn, dywedwyd ei bod yn aneglur pa lefel o ruglder sy'n rhaid ei chyrraedd er mwyn i rywun gael ei ystyried yn 'siaradwr Cymraeg'. At hynny, cwestiynwyd hefyd sut byddai data ynglŷn â'r Garreg Filltir Genedlaethol hon yn cael ei chasglu. O'r safbwyntiau hyn, byddai mesurau mwy gwrthrychol na data hunangofnodedig yn werthfawr er mwyn asesu cynnydd yn erbyn y Garreg Filltir Genedlaethol.

Mae mabwysiadu targed presennol Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn gyson â pholisi presennol Llywodraeth Cymru, ac felly mae'n ymddangos yn synhwyrol. Fodd bynnag, mae anawsterau ynglŷn â pha mor ddibynadwy yw'r data a ddefnyddir yn sail i'r targed. Mae cwestiwn y Cyfrifiad yn gofyn "A ydych yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?", sy'n ddiystyr i bob pwrpas, am mai prin y bydd ieithoedd a chaffaeliad iaith mor glir â hynny. Mae'n debygol y bydd rhai siaradwyr Cymraeg yn meddwl nad yw safon eu Cymraeg yn ddigon da i ymateb yn gadarnhaol, tra bydd eraill â Chymraeg sylfaenol yn ymateb yn gadarnhaol er hynny.

Colegau Cymru

A yw'r Cymorth Angenrheidiol Ar Gael

Mynegodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cyfleoedd dysgu a chymorth ehangach sy'n cael eu gynnig i bobl er mwyn datblygu rhuglder a hyder. Yn benodol, roedd pryderon bod diffyg cymorth a hyfforddiant iaith Gymraeg ar ôl gadael ysgol. Dywedodd rhai sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad bod ganddynt eu polisi a'u cymorth mewnol eu hunain ynglŷn â'r Gymraeg, er bod y rhan fwyaf yn pryderu ynglŷn â chymorth hygyrch ac, yn benodol, cymorth am ddim i oedolion sy'n ddysgwyr.

Credaf fod angen i bob ysgol addysgu Cymraeg a dylai pob lle gwaith (sydd â mwy na nifer benodol o gyflogeion) gynnig cyrsiau am ddim. Rwy'n anghytuno â thargedau mympwyol yn gyffredinol a chredaf fod angen i'r anogaeth i siarad Cymraeg ddod gan ysgolion, cyflogwyr a chymdeithas.

Unigolyn

Addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg yw'r sylfaen i unrhyw gynnydd i'r iaith Gymraeg. Ychwanegaf at hynny fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl addysg yr un mor bwysig. Byddai hyn yn cynnwys Cymraeg yn y gweithle (yn arbennig yn y sector cyhoeddus) a diogelu hyfywedd ieithyddol ac economaidd cymunedau Cymraeg.

Dyfodol i'r iaith

Pryderon Ynghylch Gorchymyn

Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu, mynegodd ymatebwyr eraill eu bod yn teimlo na ddylai ymddangos ei bod yn cael ei gorfodi ar bobl. Roedd hyn yn cynnwys saith o ymatebwyr a fynegodd y gred nad oedd pawb eisiau dysgu Cymraeg, ac na ddylid eu gorchymyn i'w dysgu yn yr ysgol nac ar gyfer gwaith.

Ydych chi wedi gofyn go iawn i'r unigolion yng Nghymru a ydyn nhw eisiau siarad Cymraeg neu ba mor bwysig maen nhw'n ystyried ydyw? Tybiaeth lleiafrif yw'r ffigurau hyn.

Unigolyn

Pryderon Ynghylch Gwahaniaethu Cadarnhaol

Maes arall o bryder oedd y canfyddiad ynghylch breintio siaradwyr Cymraeg, yn arbennig ar gyfer swyddi penodol. Teimlodd ymatebwyr fod hyn yn annheg am ei fod yn cael ei adrodd i olygu bod unigolion cymwys yn cael eu hanwybyddu'n awtomatig ar gyfer swyddi addas er budd gallu yn y Gymraeg.

Er nad oes gen i unrhyw anhawster â siaradwyr Cymraeg, ni chredaf y dylai pobl gael eu heithrio rhag swyddi ar y sail nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

Unigolyn

Pryderon Ariannol

Roedd pryderon ariannol hefyd yn cael eu lleisio'n gryf yn yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Garreg Filltir Genedlaethol a nodir uchod. Roedd hyn ar ffurf faint o arian sydd wedi'i wario hyd yma gan y llywodraeth i dyfu'r iaith, yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion i addysgu'r Gymraeg dros bynciau eraill, a'r canfyddiad o faint o arian fyddai ei angen i gyrraedd y nod hwn erbyn 2050. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn pryderu ynglŷn â sut byddai'r costau hyn yn cael eu talu, a dywedodd rhai y byddai angen gwersi â chymhorthdal i oedolion er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus.

Credaf y dylai'r Garreg Filltir Genedlaethol hon gael ei gollwng gan ein bod ni fel cenedl yn gwario llawer gormod o arian yn hyrwyddo'r Gymraeg. Gallai'r arian hwn gael ei wario'n llawer mwy effeithiol ar iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Unigolyn

Canfyddiadau Rhanddeiliaid

Roedd cefnogaeth unfrydol i'r Garreg Filltir Genedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg ymysg y rhanddeiliaid allweddol. Roedd y meysydd allweddol o ystyriaeth yn cynnwys sut orau i fesur rhuglder a defnydd iaith. Mynegodd sawl sefydliad y farn y byddai rhyw fath o fesuriad o'r Gymraeg mewn defnydd bob dydd yn werthfawr.

...Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn cynnwys dau brif darged sy'n mynd law yn llaw, sef cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 a dyblu'r ganran o'r boblogaeth sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol. Mae'r un pwyslais ar y ddau yn strategaeth iaith y llywodraeth, ac nid yw'n glir pam fod y Cerrig Milltir Cenedlaethol am ganolbwyntio ar nifer y siaradwyr yn unig, yn hytrach na'r defnydd o'r iaith hefyd. Credwn fod gwerth ystyried y posibilrwydd o gynnwys y ddau ffactor yma yn rhan o'r un garreg filltir, a fyddai'n darllen fel yma: erbyn 2050, cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r ganran sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol. Ni welwn reswm pam na ellid cyflwyno un garreg filltir yn seiliedig ar ddau brif ddangosydd.

Comisiynydd y Gymraeg

Eraill sydd i ymateb i sylwedd y garreg filltir, er hynny byddem hefyd yn awgrymu rhoi ystyriaeth i sut y gall y cerrig milltir adlewyrchu'r ganran o bobl sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel mesuriad o faint o bobl sy'n defnyddio eu gallu i siarad Cymraeg.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Cafwyd cydnabyddiaeth eang hefyd i'r angen am fwy o gymorth er mwyn cyflawni Cymraeg 2050. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau ac ehangu'r Gymraeg mewn ysgolion, yn ogystal â gwneud y hyfforddiant a chymorth iaith Gymraeg yn fwy hygyrch i oedolion:

Mae angen gweithredu i ailgynnu sgiliau iaith Gymraeg pobl sydd heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael ysgol, neu sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain. Ffactor allweddol i'w ystyried yw effaith defnydd iaith oedolion ar ganfyddiad o ba mor ddefnyddiol yw'r Gymraeg. Mae mentrau diweddar a phresennol wedi canolbwyntio ar annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, er mwyn normaleiddio ei defnydd a chynyddu nifer y siaradwyr cynhenid. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos mai'r iaith y mae rhieni'n ei defnyddio i ryngweithio sydd fwyaf tebygol o effeithio ar batrymau defnydd iaith plant dro amser, a gosod sylfaen ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg ymysg y genhedlaeth nesaf. Byddai

ailfuddsoddi mewn cynlluniau fel 'Mae dy Gymraeg di'n grêt' yn un ffordd o ddylanwadu ar hyn.

Mudiad Meithrin

10 Dangosyddion Llesiant a Chyfathrebu

Holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â'r ffordd orau i gyfleu'r Cerrig Milltir Cenedlaethol a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i bobl a chymunedau Cymru.⁹

Canfyddiadau Cyffredinol

Rhoddodd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn atebion cymysg iawn, ac awgrymwyd amrywiaeth o ddulliau a mecanweithiau posibl. Yn ychwanegol at ddulliau i ledaenu gwybodaeth, cynigiodd ymatebwyr hefyd wahanol flaenoriaethau neu fathau o negeseuon a fyddai'n werthfawr a phriodol:

Themâu Allweddol

Cyfryngau Ymgysylltu

Yr opsiynau mwyaf poblogaidd a awgrymwyd oedd y cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau traddodiadol (teledu a radio), ac yn olaf sianeli swyddogol y llywodraeth megis datganiadau i'r wasg a gwefan Llywodraeth Cymru. Rhai opsiynau posibl eraill a gynigiwyd oedd hysbysebion papurau newydd a chylchgronau, hysbysfyrddau a hysbysebion cyhoeddus, ac yn olaf hysbysebion ar y we.

Yr angen am Dryloywder

Awgrymwyd bod angen i dryloywder fod yn ganolog i'r broses hon. Dywedwyd y dylai pobl wybod am y rhesymau y tu ôl i'r amcanion hyn yn ogystal â'r mesuriadau a ddefnyddir i lywio cynnydd. Dywedwyd y byddai'r dull hwn yn arwain at fwy o ymddiriedaeth yn y ddeddf, yn ogystal â'r posibilrwydd o arwain at fwy o gefnogaeth gan y cyhoedd i gyrraedd y Cerrig Milltir Cenedlaethol.

Mae angen i'r rhain gael eu cefnogi gan ein poblogaeth a'r unig ffordd o wneud hyn yw bod pobl Cymru'n teimlo bod ganddyn nhw lais, eu bod yn cael gwrandawriad, a'u bod yn rhan lawn o gytuno ar nodau a'u cyflawni fel rhan o'r darlun ehangach.

Unigolyn

Hygyrchedd

Roedd hygyrchedd yn nodwedd amlwg yn atebion yr ymatebwyr i'r cwestiwn ynghylch sut orau i gyfathrebu'r Cerrig Milltir Cenedlaethol i'r cyhoedd a chymunedau. Yn gyntaf, nodwyd

⁹ C9: Sut, yn eich barn chi, y dylem gyfleu'r cerrig milltir cenedlaethol a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i bobl a chymunedau Cymru?

y dylai'r cyfathrebu yma geisio ymgynghoriad at bawb yng Nghymru ac nad oedd un ateb sy'n briodol i bawb ar y mater hwn. Er enghraifft, efallai na fyddai rhywun sy'n treulio llawer o amser ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud llawer â hysbysebion yn y cyfryngau print, ac efallai na fyddai gan rywun sy'n defnyddio llawer o'r cyfryngau print, ar y llaw arall, fynediad i gyfryngau traddodiadol fel teledu neu radio. Felly byddai angen defnyddio dulliau sy'n defnyddio'r amryw gyfryngau a nodwyd yn gynharach yn y bennod hon.

Hefyd, mewn perthynas â hygyrchedd, mynegwyd y dylai'r cyfathrebiadau hyn fod yn hygyrch i unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, fel rhai sy'n byw â dyslecsia. Dylent hefyd fod yn hygyrch i unigolion sy'n dioddef o anableddau synhwyaidd megis anawsterau gweld a chlywed. Felly dylai unrhyw ddull a ddefnyddir ystyried cynnig rhyw fath o gymorth i rai sydd â gwahanol alluoedd gael fynediad i wahanol gyfryngau.

Mae'n hanfodol bod ymdrechion i gyfleu'r holl Gerrig Milltir Cenedlaethol a'r dangosyddion llesiant yn hygyrch i bob person anabl. Fel sydd wedi'i ddangos yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, gallai fod gan bobl anabl yr un faint o ddiddordeb yn yr amgylchedd a'r Gymraeg (er enghraifft) â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r cerrig milltir a'r dangosyddion hefyd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael ag effaith anghyfartal y pandemig ar bobl anabl a'r gwersi y dylid eu dysgu o hyn, yn arbennig o ran y model meddygol yn erbyn y model cymdeithasol, yr angen i symud yn ôl i'r model cymdeithasol, ac yn arbennig i hybu mwy o ddealltwriaeth o fanteision hyn, a pham ei fod yn cyd-fynd â'n nodau fel gwlad. Yn ganolog i hyn, wrth gwrs, y mae sicrhau y caiff pobl anabl eu cynrychioli'n iawn a'u cynnwys ym mhob cam pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â'u dyfodol.

Unigolyn

11 Effeithiau a Chyfleoedd Posibl

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am effeithiau a chyfleoedd posibl cyrraedd y Cerrig Milltir Cenedlaethol, yn ogystal ag a oedd unrhyw ddibyniaeth rhyngddynt.¹⁰

Themâu Allweddol

Y Rhan Fwyaf yn Gysylltiedig i Ryw Raddau

Cyfeiriodd nifer o ymatebion at y ffaith bod llawer o'r Cerrig Milltir Cenedlaethol yn gymhleth a rhyng-gysylltiedig. Wrth weithio tuag at lawer o'r Cerrig Milltir Cenedlaethol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai ganddynt y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd tuag at eraill. Yn achos Cerrig Milltir Cenedlaethol sy'n ymwneud â chymwysterau a chyflogaeth, er enghraifft, teimlwyd y gallai fod i'r rhain berthynas gadarnhaol ag ymddygiadau iach.

Yn y pen draw, mae'r holl uchelgeisiau yn gydgysylltiedig ac os oes darlun cydlynol o'r Gymru rydym eisiau ei gweld, wedyn bydd yn egluro sut mae popeth yn cydweddu â'i gilydd.

Unigolyn

Yr Amgylchedd yn Erbyn yr Economi

Teimlodd chwech o ymatebwyr y gallai fod i Gerrig Milltir Cenedlaethol economaidd ac amgylcheddol oblygiadau neu effeithiau negyddol ar ei gilydd. Elfen allweddol o'r thema hon oedd pryderon y gallai ceisio twf economaidd, wedi'i fynegi fel cyflogaeth, effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd a Cherrig Milltir Cenedlaethol:

O ganlyniad i sero-net, mae ein tir ffermio a'n tir cymunedol yn cael ei brynu gan gwmnïau buddsoddi a chorfforaethau i blannu coed. Mae angen cydnabod hyn a gweithredu neu fe fyddwn yn colli ein diwylliant, ein hiaith a'n treftadaeth.

Unigolyn

¹⁰ C10: Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth ar effeithiau posibl cyflawni'r holl gerrig milltir cenedlaethol, ac unrhyw gyfleoedd posibl. Yn benodol, a oes unrhyw gysylltiadau rhyngddynt? Er enghraifft, gallai gwneud cynnydd tuag at un o'r cerrig milltir cenedlaethol gael effaith anfwriadol ar garreg filltir genedlaethol arall, neu gallai fod cyfleoedd i sicrhau manteision ehangach rhwng cerrig milltir cenedlaethol. Defnyddiwch y lle hwn i ddarparu tystiolaeth o'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn.

Mae'n ymddangos mai dangosydd o gysylltedd allweddol sydd â'r potensial i fod yn 'gadarnhaol i'r naill / negyddol i'r llall' fyddai targedau cyflogaeth a sero-net / ôl troed ecolegol. Felly, byddai 1,000 o swyddi newydd yn edrych am olew a nwy yn cael effaith negyddol ar sero-net (er enghraifft). Felly efallai ei bod yn bwysig bod gan bob swydd 'asesiad effaith sero-net' syml – felly byddai swydd sy'n seiliedig gartref yn cyfri'n wahanol i un sy'n gofyn am deithio'n ddyddiol i lawer o fannau (er enghraifft).

Llais y Goedwig a Choetir Cymunedol Blaen Bran

Addysg yn Fuddiol i Sawl Carreg Milltir Cenedlaethol

Awgrymwyd bod disgwyl i Gerrig Milltir Cenedlaethol addysgol arwain at ganlyniadau cadarnhaol pellgyrhaeddol. Roedd yr ymatebwyr yn cysylltu addysg â Dangosyddion Cenedlaethol eraill yn ymwneud ag ymddygiadau iach, cyflogadwyedd, a chydaddoldeb. At hynny, cysylltwyd addysg hefyd â buddion eraill sydd heb eu cynnwys yn y set hon o Gerrig Milltir Cenedlaethol, megis ymgysylltiad democrataidd, cysylltiadau cymunedol, a symudedd cymdeithasol.

Rydym yn awyddus yn benodol i'r Cerrig Milltir Cenedlaethol a'r dangosyddion, ynghyd â chymau a gymerir i geisio cyrraedd y cerrig milltir a'r dangosyddion hynny, adlewyrchu'r effaith lluosydd enfawr sydd i ddysgu ar lesiant unigolion a llesiant cyfunol. Roedd perthynas hirsefydlog, er enghraifft, rhwng dysgu a gwell canlyniadau iechyd, cynyddu ymgysylltiad â phrosesau democrataidd, a gwell cysylltiadau cymunedol. Wrth gwrs, mae'r berthynas rhwng dysgu a gwell perfformiad economaidd yn glir ac yn cael ei hadlewyrchu yn amcanion polisi a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Cydbwysedd Rhwng Bod o Blaid Cymru neu'n Wrth-Seisnig

Mae thema arall a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion yn awgrymu bod canfyddiad o densiwn rhwng Cymru a Lloegr mewn perthynas â chyflwyno'r Cerrig Milltir Cenedlaethol, yn benodol ynghylch yr iaith Gymraeg. Er enghraifft, awgrymodd un ymatebydd fod y cynnydd mewn perchnogaeth ail gartrefi yn ffactor sy'n gyrru dirywiad diwylliant ac iaith, ac awgrymodd eraill bod gweithredoedd Llywodraeth Cymru yn wrth-siaradwyr Saesneg ac o bosibl yn wrth-Seisnig hefyd.

Mae angen i ni gynnal cyswllt yn well a rhoi'r gorau i fod mor wrth-Seisnig. Ni chlywais erioed y fath gasineb tuag at y Saeson â'r hyn a glywais gan y Prif Weinidog. Pwy mae'n meddwl ydyw? Sut gallwn ni fod yn unedig pan mae'r gwleidyddion yn hybu casineb ac ymraniad?

Unigolyn

Manteision Cymdeithasol Cysylltedd Digidol

Roedd gwella seilwaith digidol yn cael ei ystyried yn offeryn pwysig i wella llesiant aelodau mwyaf ynysig y cyhoedd. Nodwyd hefyd, yn arbennig yn ystod pandemig COVID-19, y bu gwasanaethau digidol yn allweddol i ganiatáu i bobl ynysig gael mynediad i'w rhwydweithiau cymdeithasol, yn ogystal â gwasanaethau fel Meddygon Teulu a banciau.

Ers hir, bu allgáu digidol yn rhwystr i lawer o bobl hŷn ac mae'r bobl hŷn hynny sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd wedi wynebu heriau penodol wrth dderbyn gwasanaethau cyhoeddus a chadw cyswllt â theulu a ffrindiau yn ystod y pandemig. Gwaethygodd hynny'r synnwyr o unigedd ac ynysigrwydd y mae llawer wedi'i deimlo. Fodd bynnag, gwelsom hefyd lawer o enghreifftiau o bobl hŷn yn defnyddio technoleg ddigidol yn llwyddiannus am y tro cyntaf yn ystod y pandemig er mwyn gwneud galwadau fideo i'w hanwyliaid a chael mynediad i wasanaethau. Mae'n rhaid i ni adeiladu ar y datblygiadau cadarnhaol yma a gweithio i leihau nifer y bobl hŷn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu sy'n methu â chael mynediad i wybodaeth.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru


12 Dull Teithio

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnig cynnwys Dangosydd Cenedlaethol yn ymwneud â thrafnidiaeth a theithio, gan fod hyn wedi'i nodi'n fwllch posibl.¹¹ Mae cynnwys yr uchod yn cael ei ystyried yn angenrheidiol oherwydd y cyfraniad sylweddol y mae trafndiaeth yn ei wneud i allyriadau carbon. Felly mae Dangosydd Cenedlaethol sy'n hybu trawsnewid i ffurf o drafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy yn bwysig ar gyfer datgarboneiddio ac i iechyd corfforol.

Awgrymir bod dwy agwedd y gellid eu cynnwys yn y Dangosydd Cenedlaethol hwn. Y cyntaf yw teithio llesol, sy'n cyfeirio at unigolion yn defnyddio dulliau corfforol megis cerdded, rhedeg a beicio i deithio yn hytrach na defnyddio cerbydau eraill sy'n cynhyrchu CO². Mae'r agwedd bosibl arall a gyflwynwyd yn ystyried datgarboneiddio; ffocws yr agwedd hon fyddai creu system drafnidiaeth sy'n golygu bod angen i lai o geir fod ar yr heol, ynghyd â chynyddu cyfran y teithiau a wneir gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio.

Canfyddiadau Cyffredinol

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod ganddynt deimladau cadarnhaol ynglŷn â chynnwys Dangosydd Cenedlaethol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Yn wir, dywedodd 82 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau hyn yn benodol eu bod yn gefnogol.



C11: N= 62, y nifer na wnaeth ymateb N= 32

¹¹ C11: Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar ddull teithio at y set bresennol o ddangosyddion cenedlaethol? Ydw/Nac ydw a) Os gwnaethoch ateb "Ydw", nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu. b) Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", pam na fyddai hwn yn ddangosydd priodol? c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn ynglŷn â chynnwys Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer trafndiaeth, darparodd 75 y cant sylwadau pellach.

Themâu Allweddol

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Hyd yma, trafndiaeth gyhoeddus fu pwynt trafod mwyaf yr ymgynghoriad. Yn benodol, awgrymwyd y gallai'r graddau y caiff ei defnyddio fod yn Ddangosydd Cenedlaethol buddiol. Awgrymwyd y dylid cyfri gwerthiant tocynnau i fesur y defnydd a wneir o'r gwasanaeth.

Yn ychwanegol at hyn, roedd mesur hygrychedd trafndiaeth cyhoeddus yn Ddangosydd Cenedlaethol buddiol posibl arall. Nodwyd bod unigolion yn teimlo bod ardaloedd gwledig, yn benodol, yn dioddef o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus gwael, a bod llawer o ardaloedd yn teimlo'n ynysig. Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo bod prisiau trafndiaeth gyhoeddus, a theithio ar drên yn enwedig, yn annog pobl i beidio â defnyddio'r gwasanaeth. Pan ofynnwyd sut y byddent yn mesur effaith y cynnydd hwn tuag at drafndiaeth gyhoeddus fwy hygrych, awgrymwyd bod prisiau tocynnau cyfartalog ac adborth arolwg o'r cyhoedd yn fesuriadau derbyniol.

Mae trafndiaeth gyhoeddus yng nghymoedd de Cymru yn ddrud, annibynadwy ac yn rhedeg ar amserau sy'n ei gwneud yn amhosibl teithio i leoedd lle mae llawer o swyddi. Er enghraifft, pe byddwn i'n byw yn Abertyleri ac angen cyrraedd y gwaith yng Nghasnewydd erbyn 8:30 am, byddai'n rhaid i mi ddal bws tua 6:45 am, a byddai hynny'n costio dros £40 yr wythnos i mi. Mae hynny'n amser cymudo o 2 awr 45 munud. Ni allaf ddal trên am nad oes yr un trên yn mynd i Gasnewydd.

Unigolyn

Seilwaith Trafnidiaeth

Roedd gwelliannau i seilwaith trafndiaeth presennol yn agwedd arall ar deithio yr awgrymwyd y gallai fod yn Ddangosydd Cenedlaethol posibl. Awgrymodd sawl ymatebydd fod cysylltedd yng Nghymru yn anhawster mewn perthynas â thrafnidiaeth, yn enwedig wrth deithio o'r gogledd i'r de. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd nad oedd rhai heolydd sy'n cysylltu gwahanol rannau o'r wlad yn addas i'r diben neu'n addas i'r galw. Pan ofynnwyd iddynt awgrymu Dangosyddion Cenedlaethol posibl ar gyfer sut i fesur unrhyw effaith tuag at seilwaith mwy cysylltiedig, awgrymwyd amserau teithio ac arolygon.

Y cysylltedd cynyddol rhwng lleoedd yng Nghymru megis llinell drên ddibynadwy rhwng y gogledd a'r de a llinellau bws sydd ddim yn canolbwyntio ar gael pobl i Gaerdydd yn unig, gostwng prisiau ar draws trafndiaeth gyhoeddus i gystadlu â chost gyrru. Mae'r manteision i ardaloedd gwledig yn enfawr.

Unigolyn

Datgarboneiddio Trafnidiaeth

Awgrymwyd bod yr angen i ddatgarboneiddio trafndiaeth gyhoeddus a phreifat yng Nghymru yn ystyriaeth allweddol os oes Carreg Filltir Genedlaethol am ddull teithio am gael ei chynnwys. Er enghraifft, teimlodd rhai unigolion fod trafndiaeth gyhoeddus yn ddull mwy effeithlon na defnyddio ceir preifat, er bod llawer o'r farn y gellid gwneud mwy i sicrhau bod y cerbydau sy'n rhan o'r sector hyd yn oed yn wyrddach.

Ydym, rydym yn cytuno â hyn mewn egwyddor ond ni ddylai fod wedi'i gyfyngu i'r mathau o deithio'n unig. H.y. nid teithio llesol ar feic neu gerdded yn unig, ond cydnabod pob dull teithio sydd ddim yn llygru. Cefnogwn yr awydd i bob dull teithio gael eu datgarboneiddio, ond i gyflawni hyn mae angen cyllid er mwyn i brif fflydoedd yr awdurdodau gael eu trawsnewid i drydan/hydrogen er enghraifft.

Cyngor Sir Ceredigion

Roedd hefyd yn cael ei gydnabod y byddai'n anodd cael y cyhoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus hyd yn oed pe byddai wedi'i ddatgarboneiddio, am fod yn well gan lawer ddefnyddio ceir preifat lle bynnag y bo'n bosibl. Awgrymwyd felly y dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a all i gynorthwyo'r cyhoedd i bontio o geir petrol a disel i gerbydau is eu hallyriadau megis ceir trydan.

Mae angen i'n seilwaith trafndiaeth gyhoeddus ac annibynnol gael ei ystyried fan yma. Mae angen i ni gael mwy o ddefnydd a meysydd sy'n hybu cerbydau trydan yn un enghraifft, gyda chefnogaeth y seilwaith sydd ei angen i'w wneud yn ymarferol troi o gerbydau petrol/disel.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Teithio Llesol

Roedd teithio llesol hefyd yn bwynt dadl allweddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roedd y safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr wedi'u pegynnu rhwng ai cynyddu teithio llesol yw'r ateb i leihau ôl troed carbon Cymru yn sgil trafndiaeth ai peidio.

Roedd y rhai a oedd yn siarad o blaid teithio llesol o'r farn ei fod yn opsiwn "hygyrch" ac isel o ran cyllideb i Lywodraeth Cymru ei archwilio. Rhagwelwyd y gallai hyn gael ei gynorthwyo gan Lywodraeth Cymru drwy ehangu rhwydweithiau llwybr beiciau, rhoi cymhorthdal i gynlluniau beicio, a hyrwyddo'n genedlaethol yr arfer o gerdded a beicio ar deithiau byr yn hytrach na defnyddio car:

Mae teithio llesol, h.y. teithio drwy ddulliau corfforol egniol megis cerdded neu feicio, yn bwysig i wella iechyd a llesiant. Fodd bynnag, rhaid i hygyrchedd fod yn rhan annatod o seilwaith lleol a rhaid ystyried amrywiaeth o anghenion, yn enwedig materion symudedd ac anabledau. Rhaid i fesur heolydd, palmentydd a llwybrau beicio addas gael ei gynnwys yn rhan o'r cerrig milltir cyfatebol.

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Roedd y rhai a oedd yn fwy amheugar ynglŷn ag ai teithio llesol yw'r ateb i leihau ôl troed carbon Cymru yn cyfeirio at y materion canlynol: nid yw teithio llesol yn addas i rai unigolion sy'n byw ag anabledau ac aelodau hŷn o'r cyhoedd, ac mae rhai unigolion yn byw mewn mannau mor anghysbell fel nad yw dulliau teithio llesol i wneud teithiau 'byr' yn briodol iddynt. Yn olaf, awgrymwyd y byddai'r seilwaith presennol yn annog pobl i beidio â defnyddio'r dulliau yma, ac roedd yr enghreifftiau'n cynnwys eltydd mawr, ansawdd heolydd gwael, a lonydd beicio ysbeidiol.

Mewn gwlad fynyddig a gwledig fel Cymru, ni fydd teithio llesol yn opsiwn i lawer o bobl a dylai Dangosydd Cenedlaethol fod yn un y gall y boblogaeth gyfan ei chefnogi.

Cyngor Sir Fynwy

Hygyrchedd Trafnidiaeth Gyhoeddus

Nodwyd bod sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus yn ddiogel a hygyrch i ddarpar ddefnyddwyr yn allweddol i sicrhau bod rhagor o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael. O ran hygyrchedd, awgrymodd sawl ymatebydd i'r arolwg bod llawer o bobl anabl a hŷn yn ei chael yn anodd defnyddio'r ddarpariaeth bresennol am resymau'n ymwneud â pha mor agos ydynt i safleoedd a gorsafoedd, eu gallu i ddefnyddio'r drafndiaeth ei hun am resymau gallu echddygol, a diffyg mynediad di-risiau i wasanaethau.

Mae llawer o lwybrau teithio llesol yn dal i fod yn anhygyrch i bobl anabl. Mae 21 y cant o orsafoedd trenau yng Nghymru heb fynediad di-risiau, ffigwr sy'n codi i 41 y cant yn y Deyrnas Unedig yn gyfan. Mae effaith trafndiaeth anhygyrch yn bellgyrhaeddol, gan ymestyn i bob agwedd ar fywydau pobl anabl. Yn ôl ein gwaith ymchwil, mae 22 y cant o bobl anabl yn dweud bod trafndiaeth anhygyrch yn gwneud iddynt deimlo'n ynysig, ac mae 21 y cant dweud ei bod yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl.

Unigolyn

Mesur Effaith

O ran sut orau i fesur y niferoedd sy'n defnyddio gwahanol ddulliau teithio, roedd cydnabyddiaeth gyffredinol mai anodd fyddai gwneud hyn yn gywir, er y cyflwynwyd sawl syniad am sut orau i fesur y dulliau trafndiaeth y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio. Roedd y rhain yn amrywio o ymgynghori â chwmnïau trafndiaeth ynglŷn â gwerthiant tocynnau, a mesur perchnogaeth cerbydau trydan, i'r syniad olaf ac amlycaf, sef cynnal arolwg

cenedlaethol rheolaidd yn edrych yn benodol ar drafnidiaeth, neu efallai gynnwys cwestiynau am gost teithio, amser teithio, a phellter teithio mewn arolygon cenedlaethol presennol.

Canfyddiadau Rhanddeiliaid

Ymysg y rhanddeiliaid allweddol, roedd consensws cyffredinol y byddai cynnwys y rhain yn beth cadarnhaol. Fodd bynnag, un rhanddeiliad a wnaeth fynegi cefnogaeth amodol oedd y Gymdeithas Cludiant Cymunedol. Roeddent yn cyfeirio at bwysigrwydd hygyrchedd a thegwch mewn trafnidiaeth, gan gynnwys buddsoddiad a fyddai'n caniatáu i rai o blith grwpiau dan anfantais wneud fwy o ddefnydd o'r gwasanaeth:

Mae Llwybr Newydd yn cyflwyno ymrwymiad i ddatblygu Llwybr Cydraddoldeb a Llwybr Gwledig, gan gydnabod bod dyletswyddau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth 'yn cynnwys yr hawl i deithio, yr hawl i wybodaeth mewn ffurf hygyrch, y gofyniad na ddylai pobl anabl gael eu trin yn llai ffafriol a'r angen i wneud addasiadau rhesymol', yn ogystal â chydabod ac ymrwymo i fynd i'r afael â'r 'gwahaniaethau sylweddol rhwng gwasanaethau trafnidiaeth gwledig yng Nghymru a'r hyn sy'n cael ei gynnig mewn ardaloedd mwy trefol'.

Cymdeithas Cludiant Cymunedol

I weddill y rhanddeiliaid allweddol a fynegodd eu cefnogaeth, blaenoriaethu trafnidiaeth lesol oedd un o'r pwyntiau dadlau mwyaf. I'r rhai a wnaeth sylwadau ar eu cefnogaeth i'r syniad o gynyddu teithio llesol, roedd rhai hefyd yn dadlau a oedd y fath ddull gweithredu'n realistig, yn arbennig i ardaloedd mwy gwledig neu bobl sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu symudadwyedd.

Mewn gwlad fynyddig a gwledig fel Cymru, ni fydd teithio llesol yn opsiwn i lawer o bobl a dylai Dangosydd Cenedlaethol fod yn un y gall y boblogaeth gyfan ei chefnogi.

Cyngor Sir Fynwy


13 Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

Roedd thema arall ynghylch Dangosydd Cenedlaethol arfaethedig yn ymwneud â chyflwyno safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yng Nghymru.¹² Daw'r cynnig hwn yn sgil pandemig COVID-19, pan fu ymgysylltiad digidol yn gynyddol bwysig o ran derbyn gwasanaethau cyhoeddus, cadw cyswllt â theulu a ffrindiau, yn ogystal â gweithio a dysgu o bell.

Amlygodd hefyd y rhwystrau sy'n wynebu pobl yng Nghymru o ran defnyddio technolegau digidol. Byddai'r safon ar gyfer bywyd digidol yn ceisio llunio llinell sylfaen ar gyfer yr hyn mae'n ei olygu i gael eich cynnwys yn ddigidol, ac mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd hyn yn cynnwys cysyniadau megis cyflymder cysylltedd, mynediad i ddyfeisiau a sgiliau digidol.

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd cefnogaeth ysgubol i gynnwys Dangosydd Cenedlaethol yn ymwneud â safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol. Roedd cyfanswm o 85 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn dweud eu bod o blaid llunio Dangosydd Cenedlaethol.



C12: N= 63, y nifer na wnaeth ymateb N= 31

O'r rhai a fynegodd farn, cynigwyd sylwadau pellach gan 73 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn cymeradwyo cynnwys y Dangosydd Cenedlaethol.

¹² C12: Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol at y set bresennol o ddangosyddion? Ydw/Nac ydw a) Os gwnaethoch ateb "Ydw", nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu. b) Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", pam na fyddai hwn yn ddangosydd priodol? c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Themâu Allweddol

Mynediad i Ryngrwyd Cyflym

Canran y boblogaeth sydd â rhyngrwyd cyflym oedd y Dangosydd Cenedlaethol mwyaf cyffredin a awgrymwyd. Roedd y manteision y byddai hyn yn arwain atynt yn cynnwys cysylltedd personol, mwy o gapasiti i weithio o bell, a manteision i fusnesau gwledig.

Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n rhaid i ni gynyddu lled band, mynediad i Wi-Fi ac ati ledled Cymru gyfan, dim mannau gwan. Byddai hyn yn caniatáu i boblogaeth Cymru weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Unigolyn

Yn ogystal â sicrhau bod lled band ar gael, awgrymwyd y byddai angen i'r mynediad hwn hefyd ystyried hygrychedd ariannol. Awgrymwyd y gallai'r hygrychedd hwn, yn arbennig i fusnesau bach, alw am ryw fath o gymhorthdal er mwyn iddynt allu derbyn y manteision.

Mae angen i fusnesau yng Nghymru wledig allu cael mynediad i ddefnyddio'r rhyngrwyd; bydd lleihau'r costau i'w ddefnyddio fel gwasanaeth, er enghraifft drwy wladoli, yn sicr o fudd i fusnesau bach ac yn cynyddu'r defnydd o gynnyrch lleol. Byddai'n rhoi cynhyrchwyr mewn cyswllt â defnyddwyr lleol a gall hynny helpu i gyflawni'r nodau hinsawdd.

Phillsbowls

Mae cynhwysiant digidol yn ystyriaeth allweddol mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol. Yn ôl A yw Cymru'n Decach? 2018, mae bod yn hŷn, yn berson anabl, peidio â meddu ar gymwysterau, byw mewn tai cymdeithasol neu fyw mewn ardaloedd gwledig yn parhau i fod yn ffactorau risg o ran allgáu digidol, ac mae'r grwpiau hynny sydd mewn fwy o berygl o gael eu hallgáu'n ddigidol hefyd yn agored i gael eu hallgáu'n ariannol am fod gwasanaethau ariannol yn prysur symud ar-lein. Amlygodd y pandemig annhegwch mewn perthynas ag allgáu digidol. Yn ôl tystiolaeth adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Sut mae Coronafeirws wedi Effeithio ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol, bu'r gagendor digidol yn her sylweddol sydd wedi cyfrannu at anghydraddoldebau o ran gallu dysgu a derbyn addysg gartref yn ystod y pandemig. Yn ôl gwaith ymchwil, nid oes gan 20 y cant o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn y Deyrnas Unedig fynediad i gyfrifiadur gartref, o gymharu â 7 y cant o blant eraill.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Lefelau Llythrennedd Digidol

Awgrymwyd bod lefelau llythrennedd digidol yn Ddangosydd Cenedlaethol posibl arall y gellid ei ychwanegu i'r set bresennol. Mewn cymdeithas sy'n gynyddol ddigidol, cydnabuwyd bod

gan yr holl boblogaeth y potensial i gael mynediad effeithiol i dechnolegau digidol. Awgrymwyd y byddai hyn nid yn unig yn caniatáu i bobl fanteisio ar wasanaethau digidol, ond y byddai hefyd yn helpu i ddiogelu defnyddwyr mwy bregus rhag risg.

Yn y dyfodol, mae am fod yn hanfodol i bawb fod yn ddigidol lythrennog, doeth a gwyliadwrus. Mae'n rhaid i hynny gynnwys ymwybyddiaeth o sgamiau.

Unigolyn

At hynny, awgrymwyd y dylai'r ymdrech hon at lythrennedd digidol hefyd barchu dewis rhai unigolion i gyfyngu ar eu defnydd o dechnegol a rhoi ystyriaeth hefyd i anghenion aelodau penodol o'r cyhoedd. Er enghraifft, efallai nad oes angen yr un sgiliau ar rywun sydd wedi ymddeol ag sydd ar berson ifanc sy'n cychwyn yn y farchnad swyddi. Yr her felly fydd sicrhau bod hyn yn cael ei fesur mewn ffordd sy'n ymwybodol o ddewisiadau ac amgylchiadau pobl.

Rwy'n credu y byddai hyn yn ddefnyddiol ond nid wyf i wedi fy argyhoeddi ynglŷn â chynnwys sgiliau digidol fel dangosydd. Dychmygaf na fyddai hyn yn rhoi ystyriaeth i ddemograffeg er mwyn gwahaniaethu rhwng anghenion sgiliau digidol. Efallai mai sgiliau isel, nad yw'n adlewyrchu "safon byw" fyddai gan rywun sydd eisoes mewn swydd neu sydd wedi ymddeol. Ac efallai nad oes ar y bobl yma angen yr un sgiliau digidol ag sydd eu hangen ar berson ifanc sy'n cychwyn yn y farchnad lafur. Pe byddai sgiliau'n cael eu mesur, byddai'n well gen i weld hyn ar ffurf cwestiwn hunanasesu fel "Oes gennych chi'r sgiliau digidol y teimlwch sydd eu hangen arnoch i gael safon byw digonol?".

Unigolyn

Gweithio o Bell

Awgrymwyd bod y cynnydd yn y gyfran o'r boblogaeth sydd nawr yn gweithio o bell, a'r cynnydd disgwyliedig mewn cyfleoedd i weithio o bell yn y dyfodol, ill dau yn rhesymau pam fod cynnwys Dangosydd Cenedlaethol ynghylch safon ar gyfer bywyd digidol yn bwysig i'r ymatebwyr. Drwy sicrhau bod gan bobl fynediad i ddyfeisiau digidol, rhyngrwyd cyflym a'r sgiliau i'w defnyddio, rhagwelir y bydd hyn yn darparu amrywiaeth o fanteision. O safbwynt busnes, er enghraifft, ystyriwyd bod hyn yn darparu cydnerthedd o ran eu gallu i addasu i weithio gartref pe byddai'r angen yn codi eto.

Dylai lleihau tlodi digidol, boed yn sgil diffyg dyfeisiau neu fand eang o ansawdd annigonol, fod yn ystyriaeth allweddol. Mae hyn yn darparu cydnerthedd yn erbyn pandemig posibl yn y dyfodol ond mae hefyd iddo lawer o fanteision eraill i gymdeithas a'r economi.

Colegau Cymru

O safbwynt unigolyn, byddai hyn yn caniatáu iddynt fyw'n bellach o'u gweithle, yn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn eu ffordd o fyw, a hefyd yn caniatáu iddynt edrych am swydd yn bellach i ffwrdd.

Gan edrych draw at uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru y bydd 30 y cant o bobl yn gweithio gartref neu'n agos i gartref yn y dyfodol, byddai hefyd yn ddefnyddiol ystyried sut i fesur diffyg mynediad oddi mewn i aelwydydd. Er enghraifft, gallai fod gan aelwyd un neu ddau liniadur ond efallai bod ar dri neu ragor o bobl angen eu defnyddio yr un pryd, neu efallai bod gan aelwyd gysylltiad band eang cymharol dda ond bod hyn yn disgyn os oes dwy ddyfais neu ragor yn ffrydio neu'n ymuno â chyfarfod byw yr un pryd.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Angen Amserlen Fyrrach

Mynegodd nifer o ymatebwyr yr ymgynghoriad bod angen gweithredu'n gyflym ar y mesur yma. Am fod technoleg yn datblygu'n gyflym, erbyn i bobl gael eu hyfforddi i'w defnyddio, roedd cydnabyddiaeth y gallai technoleg newydd fod wedi'i chyflwyno sy'n ei disodli, gan olygu bod eu gwybodaeth newydd wedi dyddio. Nodwyd hefyd bod llawer o wasanaethau y mae pobl yn eu defnyddio yng Nghymru yn troi'n gynyddol ddigidol, fel banciau, meddygon, a chofrestru i bleidleisio. Felly, er mwyn i bobl barhau i dderbyn y gwasanaethau yma yn y tymor byr, gallai hyn fod yn fwy cyfleus iddynt, ac yn y tymor hir mae perygl y gallai gwasanaethau ffisegol droi'n fwy tameidiog.

Credwn y dylai fod rhywfaint o gymorth parhaus hefyd, i alluogi pobl i ddysgu am y platfformau digidol diweddaraf, sy'n datblygu'n gyflym. Gallai'r hyfforddiant cychwynnol fod yn ddiwerth yn gyflym, yn arbennig i bobl sy'n hŷn neu sydd wedi cymryd amser o'r gwaith – i ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu, er enghraifft. Byddai diweddariadau rheolaidd yn fuddiol.

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Casglu Data

O ran casglu data, roedd pryderon y byddai angen i hyn gael ei wneud gyda chydysyniad ar sail gwybodaeth y sawl sydd dan sylw. Barnwyd bod hyn yn arbennig o bwysig ynghylch casglu data gan unigolion sydd â llythrennedd digidol isel, am ei bod yn bosibl nad ydynt yn deall i beth maent yn cytuno neu mae posibilrwydd y gallent feddwl, yn anghywir, eu bod yn destun sgam.

Awgrymwyd hefyd y byddai gan ddarparwyr band eang megis BT wybodaeth am gyflymder a nifer y defnyddwyr ac felly gallai Llywodraeth Cymru gydlynu â hwy ar gytundeb rhannu data er mwyn cael mynediad i'r wybodaeth hon. Awgrymwyd hefyd bod adroddiadau 'Connected Nation' OFCOM yn ffynhonnell ddefnyddiol mewn perthynas â mynediad Cymru i'r rhyngwrdd.

Yn olaf, yn debyg i'r hyn a awgrymwyd ynglŷn â thrafnidiaeth, awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru gynnal arolwg blynyddol er mwyn gweld cynnydd tuag at unrhyw Garreg Filltir Genedlaethol arfaethedig, neu y gallai hyn gael ei ymgorffori mewn arolwg presennol.

Canfyddiadau Rhanddeiliaid

Roedd y rhanddeiliaid allweddol a nodwyd yn yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r Dangosydd Cenedlaethol hwn yn cynnwys sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant digidol a hybu technoleg (e.e. Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru), a sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl sy'n ei chael yn anodd cyrraedd y safon ar gyfer bywyd digidol (e.e. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru). Roedd pob un o'r rhanddeiliaid allweddol a nodwyd ar gyfer y Dangosydd hwn yn awgrymu eu bod o blaid cynnwys y safon ar gyfer bywyd digidol.

O ran y materion a godwyd gan y grŵp hwn o randdeiliaid, unwaith eto roeddent yn adleisio teimladau ymatebwyr ehangach yr ymgynghoriad, ac unwaith eto, cysylltedd â'r rhyngwrdd, llythrennedd digidol a thlodi digidol oedd y pynciau y cyfeiriwyd atynt amlaf, o bell ffordd, ymysg y grŵp yma.

Mae hwn yn syniad diddorol ac yn un a allai daflu cryn oleuni. Yn ystod pandemig COVID-19, canfuom dod cysylltedd digidol wedi dringo'r agenda leol yn gyflym wrth i fwy a mwy o unigolion a busnesau fod yn ddibynnol ar fand eang a chysylltedd ffôn symudol cyflym a dibynadwy. Serch hynny, yn ogystal â chwmpasu cyflymder cysylltedd a sgiliau digidol, ni ddylai'r safon anwybyddu elfennau sylfaenol cysylltedd, h.y. cost ac argaeledd, sy'n parhau i fod yn anhawster mewn llawer o ardaloedd gwledig.

Cyngor Sir Ceredigion

Pwnc trafod arall ymysg y grŵp hwn o randdeiliaid oedd yr angen am y cynnydd hwn mewn cysylltedd digidol fel ymateb i COVID-19 a'r graddau cynyddol y mae gwasanaethau'n troi'n ddigidol. Felly roedd llawer o'r gwasanaethau sy'n ymwneud ag eirioli dros grwpiau sy'n ei chael yn anodd cael mynediad i dechnoleg ddigidol yn mynegi'u pryder bod angen cymorth i sicrhau y gallant barhau i gael mynediad i wasanaethau hanfodol.

Wrth i fwyfwy o'n gwasanaethau sector cyhoeddus gael eu digideiddio ac wrth i siopau adael ein stryd fawr a symud ar-lein, mae perygl bod rhagor o bobl yn cael eu hallgáu o gymdeithas. Wrth i GIG Cymru fabwysiadu "digidol yn gyntaf", mae perygl ein bod yn creu 'Deddf Gofal Gwrthgyfartal' ddigidol – gan adael ar ôl y rhai a allai elwa fwyaf o dechnolegau a modelau gofal newydd. Yn wir, caiff ei gydnabod bellach bod cynhwysiant digidol yn benderfynydd cymdeithasol newydd ar gyfer iechyd. Os nad ydym yn sicrhau bod dinasyddion yng Nghymru yn cyrraedd safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol, a bod dangosyddion yn eu lle i fesur cynnydd, mae perygl y byddwn yn cynyddu'r gwahaniaeth mewn canlyniadau iechyd a chydraddoldeb i'n cymunedau.


Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

14 Perfformiad Ynni

Fel rhan o'r ymgynghoriad, awgrymwyd diwygiadau hefyd i'r Dangosydd Cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar y ganran o anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol.¹³ Mae'r Dangosydd Cenedlaethol Presennol yn defnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) ond caiff ei gydnabod bod gwendidau i'r dull hwn. Efallai y bydd angen cyfres ehangach o fesurau sy'n cydnabod effeithlonrwydd ynni, sgôr effaith amgylcheddol a fforddiadwyedd.

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd yr adborth ar y diwygiad posibl i'r Dangosydd Cenedlaethol hwn yn gadarnhaol, fel yn achos yr holl Ddangosyddion Cenedlaethol arfaethedig eraill yn yr ymgynghoriad, er mai dyma'r mwyaf amrywiol o ran adborth, gyda 70 y cant o'r ymatebwyr yn cymeradwyr'r cynnig. Mae'n werth nodi hefyd mai dyma'r cwestiwn a ddenodd y nifer isaf o ymatebion o'r holl gwestiynau a ofynnwyd.



C13: N= 46, y nifer na wnaeth ymateb N= 48

O'r rhai a atebodd y cwestiwn, ymatebodd 50 y cant yn gadarnhaol i'r diwygiad i'r Dangosydd Cenedlaethol yn ogystal â darparu gwybodaeth am sut maent yn teimlo y dylid ei roi ar waith.

¹³ C13: Ydych chi'n meddwl y dylid newid dangosydd 33 "y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol"? Ydyw/Nac ydw a) Os gwnaethoch ateb "Ydw", nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu. b) Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", pam na ddylid newid y dangosydd? c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid eu defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Themâu Allweddol

Posibilrwydd o Roi Cymhorthdal

Y prif faes pryder i'r ymatebwyr oedd sut mae cynyddu'r ganran o anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol. Gofynnwyd cwestiynau, yn benodol a oedd Llywodraeth Cymru'n ystyried cynnal cynllun i gynorthwyo â hyn, megis cymorthdaliadau i drawsnewid o foeleri nwy i rai trydan, cyflwyno paneli solar, a chyllid ar gyfer asesiadau ôl troed amgylcheddol.

Mae angen cymhelliad ar bobl i fod yn fwy effeithlon o ran ynni e.e. unigolion i gael mynediad i gynllun cymorth i brynu pŵer solar, mastiau gwynt unigol. Mae hefyd angen cymhellion ar fusnesau i ddefnyddio ynni solar mewn adeiladau er mwyn lleihau ôl troed carbon.

Unigolyn

Angen Cyflwyno Llinell Sylfaen

Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod eisiau llinell sylfaen ar gyfer yr hyn sy'n cael ei ystyried yn berfformiad ynni digonol. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai ffigurau o ryw fath gael eu darparu sy'n esbonio beth sydd angen ei gyflawni er mwyn i berfformiad ynni gael ei ystyried yn ddigonol.

Gallai'r dangosydd ei hun fod yn fwy penodol. Beth yw digonol? Mae'r cynnig yn cynnwys fforddiadwyedd ond credaf y gallai hynny ddrysu'r metrig. Mae'r syniad nad yw tai sydd â pherfformiad uchel yn fforddiadwy yn bwysig ond efallai nad yw eu cyfuno'n un metrig yn ddefnyddiol oni bai ei fod yn cael ei fynegi fel sgôr deuol yn hytrach na sgôr unigol.

Unigolyn

Ôl-osod

Awgrymwyd y byddai angen i'r Garreg Filtir Genedlaethol hon fod yn gymaint i wneud ag ôl-osod mewn eiddo presennol ag ydyw'n ymwneud â sicrhau bod adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu'n unol â safon ynni benodol.

Mae'r stoc dai bresennol yng Nghymru o ansawdd anghyfartal o isel, o gymharu â'r Deyrnas Unedig. Mae uwchraddio stoc dai hanesyddol o lawer mwy o arwyddocâd i lesiant cyffredinol nag ansawdd tai newydd. Byddai'r dangosydd yn fwy uniongyrchol berthnasol i lesiant cenedlaethau'r dyfodol pe byddai'n ymwneud ag ansawdd yr holl dai, rhai newydd a phresennol, gan ddefnyddio ystod o'r metrigau ansoddol sefydledig.

Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd

Yn ychwanegol at sicrhau perfformiad ynni o safbwynt amgylcheddol, mynegwyd hefyd y byddai hyn yn gam pwysig i leihau'r heriau i'r boblogaeth mewn perthynas â thlodi.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr allweddol y sector i ganfod eu barn ar a oes lle i wella'r dangosydd i sicrhau ei fod yn casglu'r data a'r wybodaeth fwyaf priodol. Byddai dangosydd cadarn ar berfformiad ynni yn gatalydd i weithredu i wella perfformiad ynni a helpu i drechu tlodi ynni yng Nghymru.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mesur Perfformiad Ynni

Ar gyfer y Dangosydd Cenedlaethol penodol hwn, roedd mesur perfformiad yn bryder i lawer o ymatebwyr, ac ni allai'r rhan fwyaf awgrymu sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, awgrymodd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth gynnig mesuriad awgrymu bod y Weithdrefn Asesu Safonol yn addas i'r diben.

Effaith Amgylcheddol

Cyfeiriodd tri o ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd ystyried yr effaith amgylcheddol bosibl sydd i berfformiad ynni. O'r safbwyntiau hyn, gallai effaith amgylcheddol gael ei hystyried ochr yn ochr ag effeithlonrwydd o ran ynni ac fel rhan o'r Weithdrefn Asesu Safonol.

Dylai'r gyfres ehangach o fesurau a awgrymir yn y ddogfen ymgynghori – effeithlonrwydd ynni, sgôr effaith amgylcheddol a fforddiadwyedd – gael eu hystyried.

Colegau Cymru

Safbwyntiau Rhanddeiliaid

Roedd y sefydliadau a nodwyd yn rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau a luniwyd i ddiogelu aelodau bregus cymdeithas a fyddai'n elwa o gartrefi mwy effeithlon o ran ynni, a grwpiau amgylcheddol sydd â diddordeb mewn effaith amgylcheddol cartrefi sy'n effeithlon o ran ynni. Yr ymateb i'r Dangosydd Cenedlaethol hwn, gan y grwpiau yma o randdeiliaid, oedd y mwyaf cymysg o ran y rhai a oedd o blaid a'r rhai a oedd yn erbyn.

O ran y rhai a fynegodd amharodrwydd i'w gefnogi, roedd hyn yn bennaf am eu bod yn ansicr a yw'r mesurau'n bodoli a fyddai'n caniatáu i hyn gael ei ddadansoddi'n gywir. Yn fwyaf nodedig, roedd pryder y byddai mesur newydd yn tarfu ar yr wybodaeth sydd ar gael ynglŷn ag arbedion effeithlonrwydd ynni sy'n cael ei chasglu drwy fesurau traddodiadol, gan gwestiynu pa mor berthnasol fyddai'r data hyn:

Mae'r dangosydd presennol yn ffordd gydnabyddedig iawn o fesur perfformiad ynni ar draws y Deyrnas Unedig, yn y sectorau domestig a masnachol, ac y mae'n rhoi ystyriaeth i effaith amgylcheddol. Mae seilwaith sylweddol yn ei le yn ogystal â hyfforddiant, DPP parhaus ac ymchwil. Y mae wedi'i ymwreiddio yn y sectorau adeiladu newydd ac ôl-osod. O ran PAS2035, mae gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno'n awr i wella'r Weithdrefn Asesu Safonol, e.e. gydag asesiadau deiliadaeth er mwyn cael gwell dulliau ôl-osod gyda chynlluniau 25-30 mlynedd. O ran gwybodaeth Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) hyn yn dyddio ac felly'n ei gwneud yn anodd i gymharu yn eu herbyn, gwell fyddai newid am ba hyd y mae Tystysgrif Perfformiad Ynni'n ddilys, o 10 i 5 mlynedd dyweder. Mae hefyd yn anodd gwneud sylwadau pan nad oes dull gwahanol yn cael ei gynnig. Gwell fyddai mireinio'r hyn sydd gennym na dilyn llwybr cwbl wahanol.

Cyngor Abertawe

Un o'r prif bwyntiau a godwyd gan y rhanddeiliaid a oedd yn cefnogi cyflwyno'r Garreg Filltir Genedlaethol a'r Dangosydd Cenedlaethol oedd y ffaith y byddai'r fath Ddangosydd Cenedlaethol yn helpu i leihau costau cyflenwi tanwydd i gartrefi ac felly byddai'n helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Er enghraifft, dywedodd Gofal a Thrwsio Cymru y gallai'r Garreg Filltir Genedlaethol hon wella inswleiddiad thermol, lleihau costau gwresogi, a lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd. At hynny, mynegodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru eu bod yn teimlo y byddai'r Dangosydd Cenedlaethol wedi'i wella a'r data y mae'n ei ddarparu yn helpu i drechu tlodi bwyd yng Nghymru.

Tra bod effeithlonrwydd ynni'n allweddol i sicrhau bod Cymru'n cyflawni'i thargedau sero-net, nid effeithlonrwydd ynni ddylai fod y gair olaf wrth ystyried beth yw tai "da". Rhan o sgôr y Weithdrefn Asesu Safonol yw'r tanwydd mae'r preswilydd yn ei ddefnyddio ar gyfer "gwresogi dŵr a gofod, golau ac awyru". Felly byddai rhywun sy'n byw mewn tlodi tanwydd sy'n methu â gwresogi eu cartref neu sy'n gorfod dogni'u tanwydd yn debygol o fod â gwell sgôr yn ôl y Weithdrefn Asesu Safonol na rhywun sydd ddim yn y sefyllfa honno. Os yw sgôr y Weithdrefn Asesu Safonol am gael ei defnyddio, dylid rhoi blaenoriaeth i feini prawf eraill, megis lefel yr inswleiddiad thermol a gollyngiad aer, dros faint o danwydd a ddefnyddir. Dylai arian fod ar gael i eiddo sydd â sgôr isel yn hyn o beth i sicrhau y gall dull "ffabrig yn gyntaf" gael ei roi ar waith ar gyfer y tai yma, a fydd yn ei dro yn lleihau rhywfaint o bwysau ariannol ar y preswylwyr a chynlluniau datgarboneiddio ac ôl-osod yn y dyfodol.

Gofal a Thrwsio Cymru

15 Awgrymiadau o Newidiadau i'r Dangosyddion Cenedlaethol

Gofynnwyd i ymatebwyr yr ymgynghoriad a oeddent yn teimlo bod pandemig COVID_19 wedi amlygu unrhyw fylchau yn y ffordd y gallai cynnydd tuag at nodau llesiant gael eu mesur.¹⁴ Yr hyn sy'n glir iawn o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yw bod pandemig COVID-19, i bron i hanner ymatebwyr yr ymgynghoriad, wedi amlygu rhyw fath o fwlch.

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol iawn, a phrin oedd y pwyntiau o gonsensws a oedd yn bodoli ymhlith yr ymatebion. Ni ddylai'r themâu allweddol isod, felly gael eu hystyried yn rhestr gyflawn o'r holl themâu a restrwyd. Cywirach fyddai eu hystyried yn rhestr o bwyntiau o gonsensws a awgrymwyd gan nifer o ymatebwyr.

Themâu Allweddol

Yr Angen am Fwy o Gerrig Milltir Cenedlaethol ar Iechyd

Roedd agweddau ar iechyd y cyhoedd yn helaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad o ran bylchau sydd angen eu hystyried wrth edrych ar gynnydd tuag at y nodau llesiant. Roedd mynediad i driniaeth feddygol, cyfran y bobl fregus sy'n derbyn gofal naill ai yn y cartref neu mewn mannau preswyl, a bwyta'n iach oll yn fesurau posibl a awgrymwyd gan y cyhoedd fel ffyrdd i lywio Dangosyddion Cenedlaethol mewn perthynas â gwella iechyd.

Beth am y gallu i dderbyn triniaeth feddygol? Does dim heblaw COVID-19 yn cael ei drin yng ngogledd Cymru'n awr; maen nhw'n dweud wrthym ni bod y rhestr aros i osod clun newydd, er enghraifft, mor hir fel nad ydyn nhw ar gael, i bob pwrpas. Nid yw Damweiniau ac Achosion Brys yn bodoli, ac ati.

Unigolyn

Dangosyddion Cenedlaethol Lles Meddyliol Ychwanegol

Roedd iechyd meddwl yn agwedd arall lle derbyniwyd nifer o awgrymiadau i wella sut mae cynnydd tuag at y nodau llesiant yn cael eu mesur. Awgrymwyd bod cynnal arolwg o'r boblogaeth genedlaethol, yn benodol, yn ffordd bwysig y gallai data gael ei gasglu ynglŷn â llesiant. Mae syniadau megis arolwg cysylltedd â natur, ac arolwg hapusrwydd yn enghreifftiau o rai mesuriadau a awgrymwyd hyd yma.

¹⁴ C14: Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar unrhyw fylchau pellach yr ydych yn credu sydd wedi'u hamlygu gan bandemig COVID-19 yn y ffordd yr ydym yn mesur cynnydd tuag at ein nodau llesiant. Os hoffech gynnig dangosydd ychwanegol, rhowch yr wybodaeth ganlynol: Beth yw enw'r dangosydd arfaethedig? Beth yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn? Rhowch esboniad ar gyfer pam mai'r dangosydd hwn sy'n mesur llesiant Cymru orau; Ar ba nodau llesiant mae'r dangosydd yn effeithio'n uniongyrchol?

Hapusrwydd wedi'i fesur drwy ofyn y cwestiwn 'dwedwch stori wrthyf i am rywbeth wnaethoch chi wythnos yma i helpu rhywun arall...'. Ffynonellau data posibl: gallai'r cwestiwn hwn gael ei ychwanegu i'r arolwg cenedlaethol NEU (yn well byth?) gallai gwaith Auriol Miller et al. ar gasglu storïau yn ystod cyfnod COVID-19 gael ei addasu a'i ariannu at y diben yma.

Unigolyn

Mynediad i'r Awyr Agored

Awgrymwyd bod gael mynediad hawdd i'r awyr agored a mannau gwyrdd yn fesur defnyddiol i'w ystyried yn y dyfodol. Teimlodd nifer o ymatebwyr fod pandemig COVID-19 i lawer o bobl wedi amlygu'r manteision meddyliol a chorfforol sydd i fod yn agos i fan gwyrdd. Yn benodol, nodwyd ei fod yn bwysig i bobl sydd heb fynediad i ardd a rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

Mae hyn wedi'i ystyried yn Ddangosydd Cenedlaethol yn y gorffennol, ond fe'i gwrthodwyd. Amlygodd pandemig COVID-19 yr anghydraddoldebau mewn perthynas â mynediad i fannau gwyrdd a glas a'r effaith ar iechyd a lles meddyliol pobl. Credwn y dylid ei ailystyried yn Ddangosydd Cenedlaethol. Mae mynediad i natur ar oedran cynnar yn darparu'r glasbrint ar gyfer ymddygiadau cadarnhaol, iach, ac o blaid yr amgylchedd, gydol oes, sydd yn y pen draw yn cyfrannu at gyfrifoldeb lleol a byd-eang. Efallai mai mantais ychwanegol cynnwys dangosydd llesiant ar sail mynediad i fannau gwyrdd a glas fyddai ei fod yn helpu i lywio penderfyniadau cynllunio ynghylch darparu cyfleusterau o'r fath yn deg mewn cymdeithas.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Fforddiadwyedd Tai

Mater arall a godwyd gan ymatebwyr oedd fforddiadwyedd tai, a'i effaith bosibl ar lesiant yng nghyd-destun y pandemig. O'r safbwyntiau hyn, gallai fod i'r cynnydd diweddar mewn costau tai, gan gynnwys prynu a rhentu eiddo, oblygiadau llesiant a diwyllianol ehangach i unigolion, gan gynnwys byw'n agos i rwydweithiau cymdeithasol pwysig.

Mae un bwlch yn benodol yr hoffem ei amlygu sydd wedi'i waethygu'n ddiweddar gan bandemig COVID-19 – fforddiadwyedd tai. Mae hyn yn codi'n gyflym ar yr agenda'n rhanbarthol yng ngorllewin Cymru gan fod y cynnydd mawr ym mhrisiau tai a welwn yn parhau i yrru prisiau tai i'r lefelau uchaf erioed ac yn ei gwneud yn anoddach nag erioed i bobl leol, yn enwedig prynwyr ifanc tro cyntaf, gael i mewn i'r farchnad dai. Mae tuedd debyg i'w gweld mewn llawer rhan arall o Gymru. Mae rhan o hyn yn cynnwys y tueddiadau yn y sector rhentu lle mae mwy o dai yn cael eu prynu i'w rhentu, yn ogystal â nifer yr ail gartrefi, sy'n gwaredu stoc o'r farchnad dai leol. Mae hyn yn bryder i bawb ohonom o ran yr effaith ar ddemograffeg, iaith a diwylliant. Nid yw datblygu dangosydd llesiant ar hyn yn hawdd ac nid ydym wedi llwyddo i nodi mesur addas, am fod hyn i raddau helaeth yn cael ei bennu gan yr hyn sy'n digwydd yn y

farchnad. Serch hynny, mae fforddiadwyedd tai yn effeithio'n gryf ar lesiant, fel y mae ein Hasesiad o Lesiant Lleol yn dangos, a chredwn y dylid o leiaf ei ystyried wrth adolygu'r dangosyddion llesiant yn y dyfodol.

Cyngor Sir Ceredigion

Ymgysylltiad Cymunedol

Cyfeiriodd rhai ymatebion at yr angen i gryfhau Dangosyddion Cenedlaethol ynghylch cydlyniant cymunedol gan gydnabod y ffactorau sy'n cyfrannu at gymunedau cyfartal a chysylltiedig. Nododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, er enghraifft, bwysigrwydd cefnogi ac annog ymgysylltiad dinesig. O'r safbwynt hwn, mae pwysigrwydd creu maes cyhoeddus bywiog a chynhwysol, gan gynnwys er mwyn cynnal cydlyniant cymdeithasol, yn hanfodol. Gallai hyn gynnwys Dangosyddion Cenedlaethol ychwanegol sy'n ceisio deall ac adlewyrchu cynnydd tuag at fwy o gyfranogiad a chydaddoldeb yn y gymdeithas sifil:

Mae'r set bresennol o gerrig milltir a dangosyddion wedi'u cyflwyno'n bennaf drwy lens unigolyddol, ond dangosodd y pandemig mor bwysig yw cymuned i iechyd a lles pobl. Gallai hyn gynnwys dangosyddion cysylltiedig ynghylch pŵer/perchnogaeth gymunedol mewn perthynas ag asedau a defnydd tir, cyfranogiad gwleidyddol a dinesig, ynghyd â rhai o'r ffactorau a allai esbonio pam y cafodd rhai cymunedau ymateb mwy cadarn i'r pandemig nag eraill, megis gwirfoddoli a rhoddion.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adleisiodd eraill y teimlad hwn, gan amlygu potensial Dangosyddion Cenedlaethol a allai helpu i hybu cydlyniant cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys mwy o fonitro ffactorau sy'n effeithio'n negyddol ar gydlyniant, megis pa mor gyffredin yw trosedd gasineb:

Mae'r angen i ystyried dangosydd cryfach sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol â chydlyniant cymunedol yn fwlch sydd wedi'i nodi. Dylai hyn fesur trosedd gasineb, y 'teimlad' o gydraddoldeb a chysylltedd fel cymuned, amrywiaeth cymunedau ac agweddau tuag at fewnfudo. Byddai'n cysylltu â nodau llesiant 4, 5, 6 a 7. Mae Dangosydd Cenedlaethol 27 presennol yn cysylltu'n rhannol â hyn, ond nid yw wedi'i ddiffinio'n glir yn gysyniadol. Gallai dangosydd newydd neu well gynnwys ffynonellau gweinyddol ac arolwg.

Cyngor Abertawe

Mae sicrhau diogelwch grwpiau sydd ar y cyrion, yn gywir, yn ffocws yn nifer o gynlluniau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, a'r weledigaeth o Gymru mwy cyfartal a chyfiawn, dylid rhoi ystyriaeth i a oes bwlch yn y set bresennol o ddangosyddion ynghylch trosedd gasineb.

Unigolyn

16 Y Gymraeg

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr yn ymwneud â goblygiadau posibl y cynigion i'r Gymraeg.¹⁵

Effaith ar y Gymraeg

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar y cyfan yn gwyro oddi wrth yr hyn yr oedd yn ei ofyn ac ar y cyfan yn ailadrodd eu barn a fynegwyd yng nghwestiwn 8, gan ddewis yn lle hynny siarad am eu barn ar a yw hyrwyddo'r Gymraeg yn bwysig ai peidio.

Arian a Ymrwymwyd i Hyrwyddo'r Gymraeg

Fel a welwyd yn y cwestiwn blaenorol, mynegodd nifer o ymatebwyr eu pryderon ynglŷn â'r adnoddau sydd wedi'u hymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg. Yn benodol, roedd pryderon ynglŷn â sut gallai'r amser sy'n ofynnol i addysgu'r iaith i blant gael ei dreulio'n addysgu sgiliau a phynciau eraill iddynt i'w paratoi at fyd gwaith.

Credaf y byddai'r polisi hwn yn arwain at neilltuo hyd yn oed mwy o amser i ddysgu'r Gymraeg mewn ysgolion, ar draul pynciau eraill. Byddai hyn yn gwaethygu'r bylchau cyrhaeddiad presennol rhwng ardaloedd o amddifadedd uchel ac isel. Credaf hefyd y gallai arian cyhoeddus gael ei wario'n fwy effeithiol ar iechyd, addysg a gofal cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Unigolyn

Ystyriaethau Ynghylch Ail Gartrefi

Yn gysylltiedig â fforddiadwyedd, roedd pryderon ynglŷn â'r canfyddiad o ba mor gyffredin yw ail gartrefi mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu ynglŷn ag effeithiau negyddol posibl ail gartrefi ar y Gymraeg. Nodwyd bod cynnydd mewn prisiau tai a diffyg tai i bobl leol sy'n siarad Cymraeg yn cael eu gyrru gan yr arfer o brynu ail gartrefi.

Hyd nes y gallwn atal y mewnlif o bobl sy'n prynu ail gartrefi (tai mewn cymunedau, nid carafanau) a chael polisi lle mae canran uchel o eiddo lleol ar gael i bobl leol, bydd ein hiaith a'n treftadaeth yn parhau i gael eu herydu.

Unigolyn

¹⁵ C15: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r polisi hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Ystyriaethau Ynghylch Polisi Cyhoeddus

Awgrymwyd y byddai angen i'r ddarpariaeth bresennol i addysgu Cymraeg ail iaith gael ei gwella ymhellach er mwyn i Gymru gyrraedd targed Cymraeg 2050. Awgrymwyd, felly, y dylai Llywodraeth Cymru roi dull gweithredu ffurfiol mewn polisi ynghylch sut y maent am hyrwyddo dysgu'r iaith, yn arbennig i oedolion.

Ar hyn o bryd, mae sefydliadau cyhoeddus naill ai'n destun Safonau'r Gymraeg neu Gynlluniau Iaith Gymraeg. Er bod y rhain yn gyffredinol yn canolbwyntio ar wasanaethau i'r cyhoedd, nid oes gofyn i sefydliadau fod â targedau wedi'u gosod i'w helpu i gyflawni prif uchelgais Cymraeg 2050. Er mwyn cynorthwyo'r uchelgais hwn a chael mwy o effaith, gellid gosod targedau ar gyfer pob sefydliad cyhoeddus i:-

- *Gynyddu nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg*
- *Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, gan greu mwy o gyfleoedd i staff weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Bydd cael targedau'n helpu i sicrhau y gall sefydliadau cyhoeddus ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg a'u staff sy'n siarad Cymraeg mewn gweithleoedd yn gydradd â'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn helpu sefydliadau i gyfathrebu'n fwy effeithiol ac adeiladu'r perthnasoedd hynny o ymddiriedaeth â'r bobl a'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg

Yn debyg i'r cwestiwn blaenorol, roedd diffyg ymatebion i'r cwestiwn hwn ei hun. Yn lle hynny, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ateb sut roeddent yn teimlo y gallai triniaeth deg gael ei hybu yn y dirwedd ieithyddol bresennol.¹⁶

Pwysigrwydd Dewis

Awgrymwyd unwaith yn rhagor bod cyfle i ddewis yn ystyriaeth bwysig. Mynegwyd na ddylai'r cyfle i ddysgu Cymraeg gael ei flaenoriaethu dros ieithoedd eraill pe byddai rhywun yn dymuno eu dysgu. Awgrymwyd hefyd y byddai gwneud gwersi Cymraeg yn orfodol yn berygl o wthio pobl ymaith rhag bod eisiau ei dysgu:

¹⁶ C16: Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig yn eich barn chi er mwyn sicrhau neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ar hyn o bryd y Saesneg YW'R iaith sy'n cael ei siarad yn fwyaf cyffredin yng Nghymru. Ni fydd gorfodi pobl i ddysgu iaith yn gwneud i bobl siarad mwy o'r iaith; mewn gwirionedd, bydd yn gwneud i bobl ddigio mwy wrthi.

Unigolyn

17 Casgliadau

Roedd cefnogaeth ysgubol i brif sylwedd y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol penodol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion. Bron yn ddieithriad, roedd barn yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â phob un o'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol. Mae hyn yn awgrymu bod yno gonsensws eang ar bwysigrwydd y materion sy'n cael eu hamlinellu yn y cynigion, a'r blaenoriaethau y maent yn ceisio eu hybu.

Yn aml, roedd y gefnogaeth hon yn deillio o gydnabyddiaeth ymysg llawer o ymatebwyr o deimlad a chyfeiriad cyffredinol y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys gwerth dynodi a chytuno ar Ddangosyddion a Cerrig Milltir Cenedlaethol. Roedd llawer yn mynegi ac yn deall pwysigrwydd defnyddio gwybodaeth a data i lywio penderfyniadau a pholisi cyhoeddus. Roeddent yn cydnabod y rôl werthfawr y gallai Cerrig Milltir Cenedlaethol ei chwarae er mwyn creu consensws ynghylch materion neu flaenoriaethau penodol. Teimlwyd hefyd y gallai Cerrig Milltir Cenedlaethol helpu i annog mwy o weithredu cydlynol ar draws sefydliadau a mudiadau dinesig, preifat a chyhoeddus.

Pan oedd cefnogaeth ymatebwyr yn fwy amodol, roedd hyn yn tueddi i ganolbwyntio ar nifer o themâu trosfwaol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddi i gytuno â phrif sylwedd Dangosyddion neu Cerrig Milltir Cenedlaethol penodol, ac roeddent hefyd yn cynnig sylwadau ehangach, gan gynnwys awgrymiadau sut y gallent gael eu mireinio neu'u gwella.

Roedd y thema drosfwaol gyntaf yn cynnwys ystyriaethau ymarferol a heriau cyflawni Cerrig Milltir Cenedlaethol penodol. Awgrymodd hyn fod rhai'n symud y tu hwnt i'r Cerrig Milltir Cenedlaethol eu hunain, i feddwl am y camau ymarferol sydd eu hangen i'w cyrraedd. Ystyriaeth allweddol, er enghraifft, oedd pwysigrwydd cymorth effeithiol, ac i ba raddau mae ar gael, er mwyn cynyddu cymwysterau, ymddygiadau iach, neu ruglder yn y Gymraeg. Yn achos rhai Cerrig Milltir Cenedlaethol penodol, roedd hyn hefyd yn cynnwys pwysigrwydd rhoi mwy o ffocws a chymorth i bobl sy'n wynebu anfantais neu wahaniaethu. Roedd rhai o'r rhai a gynigiodd ystyriaethau neu heriau ymarferol yn annog mwy o fyfyrion, deialog a chytundeb ynghylch y camau gweithredu penodol sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd Carreg Ffilltir Genedlaethol.

Ail thema drosfwaol oedd awgrymiadau a oedd yn ceisio ehangu neu ddadelfennu Dangosyddion Cenedlaethol neu Cerrig Milltir Cenedlaethol penodol er mwyn sicrhau mwy o ddyfnder a sensitifrwydd. Mynegwyd y teimlad yn aml bod dadgyfuno indecsau ymhellach, megis archwilio dosbarthiadau demograffig neu ddaearyddol newidynnau penodol, neu ddefnyddio gwybodaeth ehangach, yn werthfawr er mwyn deall ac ymateb i'r prif faterion sydd dan sylw mewn Cerrig Milltir Cenedlaethol unigol.

Cyfeiriwyd at y mater hwn mewn ymatebion ynghylch cydraddoldeb cyflog, er enghraifft. Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod y mater yn gymhleth a rhyng-gysylltiedig, lle gallai pobl wynebu anfanteision neu rwystrau lluosog sydd yn y pen draw yn arwain at anghydraddoldeb cyflog. O'r safbwyntiau hyn, gallai sefydlu, mesur ac ymgorffori gwybodaeth ynghylch rhai o *achosion* anghydraddoldeb cyflog fod yn werthfawr er mwyn gweithio'n effeithiol tuag at y

Garreg Filltir Genedlaethol. Gallai defnyddio gwybodaeth a data ehangach er mwyn gwneud penderfyniadau a llunio polisi, o'r safbwyntiau hyn, arwain at atebion mwy effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys y Garreg Filltir Genedlaethol ynghylch cydraddoldeb cyflog ond hefyd, yn fwy cyffredinol, wrth weithio tuag at nodau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Llinyn cyffredin arall drwy'r ymatebion oedd pwysigrwydd y materion sy'n cael eu harchwilio oddi mewn i Ddangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol unigol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu uchelgais y cynigion, ond roedd rhai'n teimlo y dylai'r targedau gael eu dwyn ymlaen. O'r safbwyntiau hyn, roedd angen targedau mwy uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r prif faterion sydd dan sylw mewn Carreg Filltir Genedlaethol benodol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn achos Cerrig Milltir Cenedlaethol a oedd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a dirywiad amgylcheddol.

Er myfyrio'n ehangach ar y prif fanylion, roedd cytundeb ynglŷn â theimlad cyffredinol a phwysigrwydd y Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion. Mae hyn yn rhoi sylfaen bwysig i fynd i'r afael â'r materion sydd ynghlwm wrth y Cerrig Milltir Cenedlaethol, gan gynnwys adeiladu consensws a gweithredu ar y materion gyda phwrrpas cyffredin.

Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cerrig Milltir Cenedlaethol

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno â'r ddwy garreg filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 8 Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol?

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â nhw, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y Cerrig Milltir Cenedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhowch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filltir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno â'r Garreg Filltir arfaethedig ar gyfer Dangosydd 22 Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran?

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhowch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filltir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno â'r Garreg Filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 21 Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith?

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- a) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhowch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filltir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'r Garreg Filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 17 Cydraddoldeb Cyflog – o ran y rhywiau, ethnigrwydd ac anabledd?

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhwch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filltir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno â'r Garreg Filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 5 Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw?

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhwch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filltir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno â'r Garreg Filltir arfaethedig ar gyfer dangosydd 14 Ôl Troed Ecolegol Cymru?

Ydw/Nac ydw

- a) Os ydych yn cytuno â hi, ond fe hoffech newid ambell beth, beth fydddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
- b) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhwch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filltir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fabwysiadu'r targed presennol o allyriadau nwyon tŷ gwyrdr sero-net fel Carreg Filltir Genedlaethol?

Ydw/Nac ydw

- a) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhwch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filltir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fabwysiadu targed presennol Cymraeg 2050 sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel Carreg Filtir Genedlaethol?

Ydw/Nac ydw

- a) Os nad ydych yn cytuno â nhw, rhwch dystiolaeth ar gyfer Carreg Filtir Genedlaethol a fyddai'n fwy addas i Gymru.

Cwestiwn 9

Sut, yn eich barn chi, y dylem gyfleu'r Cerrig Milltir cenedlaethol a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i bobl a chymunedau Cymru?

Ymateb testun agored

Cwestiwn 10

Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth ar effeithiau posibl cyflawni'r holl Gerrig Milltir Cenedlaethol, ac unrhyw gyfleoedd posibl. Yn benodol, a oes unrhyw gysylltiadau rhyngddynt? Er enghraifft, gallai gwneud cynnydd tuag at un o'r Cerrig Milltir Cenedlaethol gael effaith anfwriadol ar Garreg Filtir Genedlaethol arall, neu gallai fod cyfleoedd i sicrhau manteision ehangach rhwng Cerrig Milltir Cenedlaethol. Defnyddiwch y lle hwn i ddarparu tystiolaeth o'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn.

Ymateb testun agored

Dangosyddion Cenedlaethol

Defnyddiwch y templed hwn i roi sylwadau ar gynhwysiant digidol, teithio cynaliadwy neu fylchau posibl eraill yn y set bresennol o ddangosyddion, ac i roi sylwadau hefyd ar newidiadau posibl i Ddangosydd 33.

Modd Teithio

Cwestiwn 11

Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar ddull teithio at y set bresennol o Ddangosyddion Cenedlaethol?

Ydw/Nac ydw

- a) Os gwnaethoch ateb "Ydw", nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu.
- b) Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", pam na fyddai hwn yn ddangosydd priodol?

- c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol

Cwestiwn 12

Ydych chi'n meddwl y dylid ychwanegu dangosydd ar safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol at y set bresennol o ddangosyddion?

Ydw/Nac ydw

- a) Os gwnaethoch ateb "Ydw", nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu.
b) Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", pam na fyddai hwn yn ddangosydd priodol?
c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Dangosydd 33 – Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol (wedi'i fesur gan ddefnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol)

Cwestiwn 13

Ydych chi'n meddwl y dylid newid Dangosydd 33 Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol?

Ydw/Nac ydw

- a) Os gwnaethoch ateb "Ydw", nodwch y syniad(au) neu'r cysyniad(au) yr hoffech i'r dangosydd eu casglu.
b) Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", pam na ddylid newid y dangosydd?
c) Ydych chi'n ymwybodol o ffynhonnell ddata (neu ffynonellau data) y gellid ei defnyddio i fesur y dangosydd hwn?

Bylchau Pellach yn y Set o Ddangosyddion Cenedlaethol

Cwestiwn 14

Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar unrhyw fylchau pellach yr ydych yn credu sydd wedi'u hamlygu gan bandemig COVID-19 yn y ffordd yr ydym yn mesur cynnydd tuag at ein nodau llesiant.

Os hoffech gynnig dangosydd ychwanegol, rhwch yr wybodaeth ganlynol:

- Beth yw enw'r dangosydd arfaethedig?
- Beth yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn?
- Rhowch esboniad ar gyfer pam mai'r dangosydd hwn sy'n mesur llesiant Cymru orau.

- Ar ba nodau llesiant mae'r dangosydd yn effeithio'n uniongyrchol?

Ymateb testun agored

Atodiad 2: Ymatebion Sefydliadol

Mae'r adran hon yn rhestru'r sefydliadau a gyfrannodd ymatebion i'r ymgynghoriad.

Anabledd Dysgu Cymru
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Back the Bill
BCS, Y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Coleg Nyrso Brenhinol Cymru
ColegauCymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cycling UK
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
Cynghrair Seilwaith Cymru
Cyngor Abertawe
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Sir Casnewydd
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Chwarae Teg

Chwaraeon Cymru
Dyfodol i'r Iaith
Elusen Leonard Cheshire
Estyn
Ffederasiwn Busnesau Bach
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Gofal a Thrwsio Cymru
Grŵp Gweithredu Llesiant Strategol Gwent
Gyrfa Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Llais y Goedwig a Choetir Cymunedol Blaen Bran
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Mind Cymru
Mudiad Meithrin
NFU Cymru
Plant yng Nghymru
Phillsbowls
RSPCA Cymru
Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
Trafnidiaeth Cymru
Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
TUC Cymru
WWF Cymru
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com

